I pointed out to him that that disciplinary process would involve, as Ms Southall has already said herself, past and present members of staff. It would involve Council, it would involve the personnel department—which was a particular problem with which I was confronted because, of course, the personnel department reported to Mr Arnold, and had done—and it would involve the Welsh Office.

As I say, this meeting was so sensitive and important to me that I had done something that I do not think that I have ever done before—I have the notes of what I was going to say and

gweithiwr dan sylw wythnos cyn y cyfarfod. Yr oedd hynny'n hollol amhosibl—yr oedd y dyn ar ei wyliau. Yr oeddwn yn credu bod y materion mor ddifrifol bod angen ymdrin â hwy ar y diwrnod y dychwelodd. Yr oeddwn, yn wir, wedi cael cyngor eisoes, gan y pennaeth adnoddau dynol a'm cyfreithiwr, bod un o blith y set o dri honiad mor ddifrifol fel nad oedd gennyf unrhyw ddewis ond ei wahardd ar unwaith. Gwneuthum hynny. Ond dywedais fod yn rhaid inni fynd drwy'r broses ddisgyblu cyn gynted ag yr oeddem wedi paratoi papur iddo ei astudio a chael wythnos i'w astudio.

Eglurais wrtho y byddai'r broses ddisgyblu yn cynnwys aelodau presennol a chyn-aelodau o'r staff, fel y dywedodd Ms Southall ei hun eisoes. Byddai'n cynnwys y Cyngor, byddai'n cynnwys yr adran bersonél—a oedd yn broblem benodol a wynebwn oherwydd bod yr adran bersonél wrth gwrs yn atebol i Mr Arnold, a'i bod wedi gwneud hynny—a byddai'r Swyddfa Gymreig yn rhan o hynny.

Fel y dywedais, yr oedd y cyfarfod hwn mor sensitif a phwysig imi nes imi wneud rhywbeth nad wyf yn credu imi erioed ei wneud o'r blaen—mae gennyf nodiadau o'r hyn yr oeddwn am ei

then notes of what I actually did say— so it is a very carefully documented meeting. In one of the three areas I gave him some very precise examples.

I think that there is very little that I can say to be absolutely specific about the sick leave point. First, I felt, actually, despite whatever the formal position was, that it was quite fair for an employee of 14 years' standing to be given informal notice of what was coming. Secondly, I felt that he had earned at least the right not to, as it were, have the fact that he was under suspicion bandied all around the museum and the public straight away. If it did go round the museum I assure you—I know from experience—that it would have been in the public print very quickly indeed.

It seemed to me that, if you like, I was being slightly dishonest. I think that it is a white lie. I do not know whether you believe in white lies or not. It seemed to me that he was entitled to have the benefit of the doubt until the disciplinary process actually began. I think that all rules and morality suggest that I should do that.

ddweud ac yna nodiadau o'r hyn a ddywedais—felly mae'n gyfarfod sydd wedi'i gofnodi'n ofalus. Mewn un o'r tri maes rhoddais rai enghreifftiau penodol iawn iddo.

Nid wyf yn credu y gallaf ddweud llawer i fod yn hollol benodol o ran y pwynt ynglyn â'r cyfnod salwch. Yn gyntaf, teimlwn, mewn gwirionedd, beth bynnag oedd y sefyllfa ffurfiol, ei fod yn eithaf teg i rywun a fu'n gyflogedig ers 14 mlynedd gael rhybudd anffurfiol o'r hyn a oedd i ddod. Yn ail, yr oeddwn o'r farn ei fod wedi ennill yr hawl, fel petai, i atal y ffaith ei fod o dan amheuaeth rhag cael ei lledaenu drwy'r amgueddfa ac i'r cyhoedd ar unwaith. Pe bai wedi cael ei lledaenu o amgylch yr amgueddfa gallaf eich sicrhau—a gwn o brofiad—y byddai yn y wasg yn fuan iawn.

Yn fy marn i, os mynnwch, yr oeddwn ychydig yn anonest. Credaf mai celwydd golau ydoedd. Ni wn a ydych yn credu mewn celwyddau golau ai peidio. Yn fy marn i yr oedd yn haeddu mantais yr amheuaeth nes i'r broses ddisgyblu ddechrau mewn gwirionedd. Credaf fod pob rheol a moes yn awgrymu y dylwn wneud hynny.

I had another couple of difficulties— one of them that Ms Southall has already mentioned. There was an aspect of timing. I was two months and one week from leaving the job and Ms Southall taking over. I was advised that there was not the slightest chance of getting the disciplinary process through in that time, given the seriousness of the allegations. I was therefore confronted with the possibility that my last two months were going to be dominated by a particular, very difficult and frankly, I thought, likely to be unpleasant, difficulty. Ms Southall's first three months, perhaps, were going to be dominated by the same thing. I was advised by my legal adviser that there was a very serious likelihood that, when I left and Ms Southall started, Mr Arnold could get the whole thing started all over again. That affected a lot of my thinking about what had to be done and how quickly I had to move.

The other difficulty, frankly, was, as you have said and as comes out in the report, that these difficulties were not new. I had not been aware of the seriousness of these allegations and how far they went back. I was not

Cefais ambell anhawster arall—mae Ms Southall wedi crybwyll un ohonynt yn barod, sef amseru. Yr oedd gennyf ddau fis ac wythnos cyn gadael fy swydd a Ms Southall yn cymryd yr awenau. Cefais fy nghynghori nad oedd unrhyw siawns o gwblhau'r broses ddisgyblu yn yr amser hwnnw, o gofio difrifoldeb yr honiadau. Yr oeddwn felly yn wynebu'r posibilrwydd y byddai fy nau fis olaf yn canolbwyntio ar anhawster penodol anodd iawn ac, a bod yn onest, anhawster a oedd yn debygol o fod yn annymunol. Byddai tri mis cyntaf Ms Southall, o bosibl, yn canolbwyntio ar yr un peth. Cefais fy nghynghori gan fy ymgynghorydd cyfreithiol bod tebygolrwydd difrifol y gallai Mr Arnold achosi i'r holl beth gychwyn eto wrth i mi adael a Ms Southall ddechrau. Effeithiodd hynny'n fawr ar y ffordd yr oeddwn yn meddwl ynglyn â'r hyn yr oedd yn rhaid ei wneud a pha mor gyflym yr oedd yn rhaid i mi weithredu.

Yr anhawster arall oedd, a bod yn onest, fel y dywedasoeh ac fel yr amlygir yn yr adroddiad, nad oedd yr anawsterau hyn yn newydd. Nid oeddwn yn ymwybodol o ddifrifoldeb yr honiadau hyn nac ers pryd y'u

aware until after I had started this whole process that my predecessor had gone to the Welsh Office with the very same problems about Mr Arnold. I was not aware until the head of human resources brought me the files in the personnel office that, actually, there was a series of detailed reports on the most serious cases, the ones that I thought demanded an instant suspension, in the personnel office which nobody had shown me for whatever reason. I was therefore in the difficulty that the national museum could still be said to have acted extraordinarily slowly not to have dealt with these things previously. I can only plead that they were out there, but I, as a director who was in post for four and a half years at this stage, did not know about them.

[22] Brian Gibbons: One final point on this. We have seen this this week in terms of the report on the child abuse accusations. It is important that, if we are encouraging probity and encouraging people to come forward with complaints, and people are subject to complaints that may be correct or incorrect, we must establish

gwnaethpwyd. Nid oeddwn yn ymwybodol nes ar ôl imi ddechrau'r holl broses hon fod fy rhagflaenydd wedi cysylltu â'r Swyddfa Gymreig gyda'r union yr un problemau ynglyn â Mr Arnold. Nid oeddwn yn ymwybodol nes i bennaeth yr adran adnoddau dynol ddod â'r ffeiliau imi yn y swyddfa bersonél bod yna, mewn gwirionedd, gyfres o adroddiadau manwl ar yr achosion mwyaf difrifol, sef y rhai a oedd yn haeddu gwaharddiad ar unwaith yn fy marn i, yn y swyddfa bersonél nad oedd unrhyw un wedi eu dangos imi am ba reswm bynnag. Felly yr oeddwn yn wynebu'r anhawster y gellid dweud o hyd bod yr amgueddfa genedlaethol wedi gweithredu'n hynod o araf wrth beidio ag ymdrin â'r pethau hyn yn flaenorol. Ni allaf ond haeru eu bod ar gael, ond, fel cyfarwyddwr a oedd yn y swydd ers pedair blynedd a hanner bryd hynny, ni wyddwn amdanynt.

[22] Brian Gibbons: Un pwynt olaf ar hyn. Yr ydym wedi gweld hyn yr wythnos hon gyda'r adroddiad ar honiadau o gam-drin plant. Mae'n bwysig, os ydym yn annog gonestrwydd ac yn annog pobl i gyflwyno cwynion, ac mae pobl yn destun cwynion a allai fod yn gywir neu'n anghywir, inni gadarnhau bod

that a suspension is a neutral act and does not imply guilt or innocence. I do not think that you have really answered the question. It worries me that, in some way, you feel that suspension implies guilt. In retrospect, do you still feel that offering sick leave was the correct option?

Mr Ford: In retrospect, I do not think that I would have changed anything that I did at the first two or three meetings. I hear what you say about wishing the word 'suspension' not to be coloured, but I am bound to say that I do not agree with you. I think that it currently is coloured. If the world hears that an employee has been suspended for enquiries, there is an implication, a suggestion and a jumping to conclusions. I felt, to be fair, that I did not want people jumping to conclusions about Mr Arnold at that point.

[23] Alun Pugh: I have one quick supplementary about culture. You say that there are perhaps long-standing problems. My question is very blunt. Do you not talk to each other? This building is obviously particularly

gwaharddiad yn weithred amhleidiol ac nad yw'n awgrymu bod person yn euog neu'n ddiuog. Nid wyf yn credu eich bod wedi ateb y cwestiwn mewn gwirionedd. Mae'n achos pryder imi eich bod, mewn rhyw ffordd, o'r farn fod gwaharddiad yn awgrymu bod rhywun yn euog. Wrth edrych yn ôl, a ydych yn parhau o'r farn mai cynnig cyfnod salwch oedd yr opsiwn cywir?

Mr Ford: Wrth edrych yn ôl, nid wyf yn credu y byddwn wedi newid unrhyw beth a wneuthum yn y ddau neu dri chyfarfod cyntaf. Yr wyf yn deall yr hyn a ddywedwch ynghylch dymuno peidio â chamliwio'r gair 'gwaharddiad', ond yr wyf yn rhwym o ddweud nad wyf yn cytuno â chi. Yr wyf yn credu ei fod wedi ei gamliwio ar hyn o bryd. Os yw'r byd yn clywed bod gweithiwr wedi'i wahardd oherwydd ymholiadau, mae ensyniad, awgrym a neidio i gasgliadau. Yr oeddwn o'r farn, i fod yn deg, nad oeddwn am i bobl neidio i gasgliadau ynglyn â Mr Arnold bryd hynny.

[23] Alun Pugh: Mae gennyf un cwestiwn ychwanegol cyflym ynglyn â diwylliant. Dywedwch fod problemau hirsefydlog o bosibl. Mae fy nghwestiwn yn un di-flewyn-ar-dafod. Onid ydych yn siarad â'ch gilydd?

leaky, but in every other organisation that I have worked for, managers make it their daily business to talk formally and informally with all levels of staff. If there were serious problems like this, I find it amazing that you were unaware of it.

Mr Ford: I was aware of some doubts and questions that I had in my mind and that my senior colleagues and others had discussed. I was not aware of precise evidence of things that had happened in surprisingly large numbers before I became director of the museum.

[24] Alison Halford: I am sorry to press you further Mr Ford. It is hopefully in an inquisitorial rather than an accusatorial way. What you have told us is at the heart of why we are here today. You kindly told us that you had been director since 1993, and yet it takes a woman who had only been appointed in January 1997 to tell you what was dramatically wrong with a senior member of your staff. Is that what you are telling the Committee?

Mae'r adeilad hwn yn amlwg yn arbennig o dafodrydd, ond ym mhob sefydliad arall yr wyf wedi gweithio iddo, mae rheolwyr yn sicrhau eu bod yn siarad yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda'r staff ar bob lefel yn ddyddiol. Os oedd problemau difrifol fel hyn, mae'n anhygoel yn fy marn i nad oeddech yn ymwybodol ohonynt.

Mr Ford: Yr oeddwn yn ymwybodol o rai amheuon a chwestiynau a oedd gennyf yn fy meddwl ac yr oedd fy uwch gydweithwyr ac eraill wedi eu trafod. Nid oeddwn yn ymwybodol o dystiolaeth fanwl ynghylch pethau a oedd wedi digwydd yn syfrdanol o aml cyn imi ddod yn gyfarwyddwr ar yr amgueddfa.

[24] Alison Halford: Mae'n ddrwg gennyf bwyso arnoch ymhellach, Mr Ford. Gobeithiaf fy mod yn gwneud hynny drwy holi yn hytrach na chyhuddo. Yr hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym sydd wrth wraidd y rheswm pam ein bod yma heddiw. Dywedasoeh wrthym yn garedig eich bod wedi bod yn gyfarwyddwr ers 1993, ac eto yr oedd angen menyw a oedd ond wedi'i phenodi ym mis Ionawr 1997 i ddweud wrthyh beth oedd o'i le yn ddifrifol gydag uwch aelod o'ch staff. Ai dyna yr ydych yn ei

ddweud wrth y Pwyllgor?

Mr Ford: I am telling you that I and some of my senior colleagues had questions about it, but remember that the personnel department reported to and was run by Mr Arnold. The evidence that was there did not come to me for whatever reason but it was all within Mr Arnold's area of activity.

[25] Alison Halford: So why do we pay directors to direct?

Mr Ford: I think that I am paid to direct. I had delegated to the most—Mr Arnold was the most senior member of staff that I had. He was an assistant director and had been there for much longer than anybody else. Having said I would not change anything in those early meetings, as I believe that I took the utmost care and very serious advice. I have thought about it very seriously, as you may well imagine, since the report came out. It worries me. I cannot think that I did anything that I would change now. What I do think that I would re-do if I got the job again is not to have one person responsible for finance, human resources and compliance. I think that this particular senior manager had too

Mr Ford: Yr wyf yn dweud wrthyb bod gennyf i a rhai o'm huwch gydweithwyr gwestiynau ynglyn â hyn, ond cofiwch fod yr adran bersonél yn atebol i Mr Arnold ac yn cael ei rhedeg ganddo. Ni chefais y dystiolaeth a oedd yno am ba reswm bynnag ond yr oedd hyn oll o fewn cylch gorchwyl Mr Arnold.

[25] Alison Halford: Felly pam yr ydym yn talu i gyfarwyddwyr gyfarwyddo?

Mr Ford: Credaf fy mod yn cael fy nhalu am gyfarwyddo. Yr oeddwn wedi dirprwyo i'r—Mr Arnold oedd yr aelod o staff uchaf o ran statws a oedd gennyf. Ef oedd cyfarwyddwr cynorthwyol ac yr oedd wedi bod yno yn llawer hwy nag unrhyw un arall. Wedi dweud na fyddwn yn newid unrhyw beth yn y cyfarfodydd cynnar hynny, gan fy mod yn credu imi gymryd y gofal mwyaf a chyngor o natur ddifrifol iawn. Bûm yn meddwl amdano'n ddwys iawn, fel y gallwch ddychmygu, ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Mae'n destun pryder imi. Ni allaf feddwl imi wneud unrhyw beth y byddwn yn ei newid yn awr. Yr hyn y credaf y byddwn yn ei ail-wneud pe bawn yn cael y swydd eto yw peidio â

many of those serious responsibilities delegated to him.

[26] Alison Halford: Was Arnold suspended officially?

Mr Ford: Yes.

[27] Alison Halford: And then, days later, in order to ensure that nobody found out that he was under suspicion, you allowed him to go on sick leave, although you were determined to continue the discipline proceedings against him.

Mr Ford: By the days later, Mr Arnold had made some proposals of other ways that he would want to deal with it.

[28] Alison Halford: Mr Arnold did?

Mr Ford: Yes. He had put to us the possibility that we should make him redundant or that we should let him retire on medical grounds.

chael un person a fyddai'n gyfrifol am gyllid, adnoddau dynol a chydymffurfiad. Credaf fod gormod o'r cyfrifoldebau difrifol hynny wedi'u dirprwyo i'r uwch reolwr arbennig hwn.

[26] Alison Halford: A gafodd Arnold ei wahardd yn swyddogol?

Mr Ford: Do.

[27] Alison Halford: Ac yna, wedi nifer o ddiwrnodau, er mwyn sicrhau nad oedd neb yn darganfod ei fod o dan amheuaeth, fe wnaethoch ganiatáu iddo fynd ar gyfnod salwch, er eich bod yn benderfynol o barhau â'r gweithdrefnau disgyblu yn ei erbyn.

Mr Ford: Wedi'r nifer o ddiwrnodau dan sylw, yr oedd Mr Arnold wedi gwneud rhai cynigion ynglyn â ffyrdd eraill y byddai am ddelio ag ef.

[28] Alison Halford: Mr Arnold a wnaeth hynny?

Mr Ford: Ie. Cyflwynodd inni'r posibilrwydd y dylem ei ddiswyddo neu y dylem adael iddo ymddeol ar sail feddygol.

[29] Alison Halford: And you, despite the seriousness of these long-standing allegations, were prepared to take that advice because your retirement was imminent. Is that right?

Mr Ford: I think that my imminent retirement was part of the issue. That makes it sound as if it was more important to me than to the director designate, whereas I believed that I was doing the best thing that I could for the director designate. I also believed that I was likely to save the taxpayer a great deal of money considering the length of the exercise that we were likely to have to go through in order to conduct this disciplinary process in a very difficult case.

[30] Alison Halford: You had never had any experience of the discipline process before, so how can you say that?

Mr Ford: I did not say that. I said that I had no experience of the museum's new disciplinary procedures that we had put in place. I have of course, having directed two museums and worked in senior positions in four national museums, been through a

[29] Alison Halford: Ac yr oeddech chi, er gwaethaf difrifoldeb yr honiadau hirsefydlog hyn, yn barod i gymryd y cyngor hwnnw gan fod eich ymddeoliad chi yn yr arfaeth. A yw hynny'n gywir?

Mr Ford: Credaf fod fy ymadawiad arfaethedig yn rhan o'r mater. Mae hynny'n gwneud iddo ymddangos fel ei fod yn bwysicach i mi nag i'r darpar gyfarwyddwr, ond mewn gwirionedd yr oeddwn yn credu fy mod yn gwneud y peth gorau y gallwn fod wedi'i wneud i'r darpar gyfarwyddwr. Yr oeddwn hefyd o'r farn fy mod yn debygol o arbed llawer o arian i'r trethdalwr o ystyried hyd yr ymarfer yr oeddem yn debygol o orfod ymgymryd ag ef er mwyn cynnal y broses ddisgyblu hon mewn achos anodd iawn.

[30] Alison Halford: Nid oeddech erioed wedi cael unrhyw brofiad o'r broses ddisgyblu o'r blaen, felly sut y gallwch ddweud hynny?

Mr Ford: Ni ddywedais hynny. Dywedais nad oedd gennyf unrhyw brofiad o weithdrefnau disgyblu newydd yr amgueddfa yr oeddem wedi eu rhoi yn eu lle. Gan fy mod wedi bod yn gyfarwyddwr ar ddwy amgueddfa ac wedi gweithio mewn uwch swyddi

number of disciplinary processes. I had never been through the new one and I had never been through it with a member of staff so senior.

[31] Janet Davies: Before we leave this part of the evidence, I think Alun would like to ask a question.

[32] Alun Cairns: I would like to pick up on one point that Mr Gibbons raised with you and that was pursued somewhat further by Alison Halford. You mentioned that Mr Arnold was allowed to go on sick leave. I would like to jump forward to paragraph 18 of the report, which highlights your letter of 7 October 1998 to the sponsor body. It quotes, 'during his recent absence on sick leave'. I am sure that paragraph 18 will be explored in detail later by other Committee members but I do not want to let this go without one further question. Why was the suspension not highlighted in that letter and why was the pretence of sick leave continued?

Mr Ford: I think that I have already answered that in that we—

[33] Alun Cairns: Forgive me for interrupting, but before you answer, I

mewn pedair amgueddfa genedlaethol, yr wyf wrth gwrs wedi bod drwy nifer o brosesau disgyblu. Nid oeddwn erioed wedi bod drwy'r un newydd ac nid oeddwn erioed wedi bod drwyddi gydag aelod o staff o statws mor uchel.

[31] Janet Davies: Cyn inni adael y rhan hon o'r dystiolaeth, credaf fod Alun am ofyn cwestiwn.

[32] Alun Cairns: Hoffwn ailafael yn un o'r pwyntiau a gododd Mr Gibbons gyda chi ac yr aeth Alison Halford ar ei drywydd ymhellach. Soniasoch y caniatawyd i Mr Arnold fynd ar gyfnod salwch. Hoffwn neidio ymlaen i baragraff 18 o'r adroddiad, sydd yn amlygu eich llythyr dyddiedig 7 Hydref 1998 i'r corff noddi. Mae'n dyfynnu, 'yn ystod ei absenoldeb diweddar ar gyfnod o salwch'. Yr wyf yn siwr yr ymchwilir yn fanwl i baragraff 18 yn ddiweddarach gan aelodau eraill o'r Pwyllgor ond nid wyf am adael y mater hwn heb un cwestiwn pellach. Pam na chafodd y gwaharddiad ei amlygu yn y llythyr hwnnw a pham y parhawyd ffugio'r cyfnod salwch?

Mr Ford: Yr wyf yn credu imi ateb y cwestiwn hwnnw eisoes gan inni—

[33] Alun Cairns: Maddeuwch i mi am dorri ar eich traws, ond cyn ichi ateb,

want to clarify my understanding that sick leave was a pretence to museum staff rather than to the senior management and, in particular, to the sponsor body.

Mr Ford: Yes. To go back on this question of suspension, my notes of the first meeting with Mr Arnold say that I suggested to him and he accepted that he should take the rest of the day off in order to think about the issues, what the allegations were and whether he thought they were true or not. He should then come back at a convenient time when we could discuss them more formally. The word ‘suspension’ was not used at that stage.

[34] Alun Cairns: The point I am trying to get across to Mr Ford is that surely, did you not have an obligation to the sponsor body to give it the full story rather than the story that was concocted for the sake of the convenience of the staff at the museum?

Mr Ford: The sponsor body knew, certainly, that I was talking about serious allegations with Mr Arnold: that he had come back from holiday and that I had a meeting with him about serious allegations. They were

yr wyf am sicrhau fy mod yn deall mai esgus i staff yr amgueddfa yn hytrach na’r uwch reolwyr ac, yn arbennig, y corff noddi, oedd y cyfnod salwch.

Mr Ford: Ie. I ailafael ym mater y gwaharddiad, mae fy nodiadau o’r cyfarfod cyntaf gyda Mr Arnold yn dweud fy mod wedi awgrymu iddo, ac iddo dderbyn, y dylai gymryd gweddill y diwrnod fel gwyliau er mwyn meddwl am y materion, beth oedd yr honiadau ac a oedd o’r farn eu bod yn wir ai peidio. Yna dylai ddychwelyd ar adeg gyfleus er mwyn inni eu trafod yn fwy ffurfiol. Ni ddefnyddiwyd y gair ‘gwaharddiad’ bryd hynny.

[34] Alun Cairns: Y pwynt yr wyf yn ceisio ei gyfleu i Mr Ford yw—does bosibl nad oedd gennych ymrwymiad i’r corff noddi i roi’r hanes yn llawn iddo yn hytrach na’r stori a grëwyd er hwylustod i staff yn yr amgueddfa?

Mr Ford: Yr oedd y corff noddi, yn sicr, yn gwybod fy mod yn trafod honiadau difrifol gyda Mr Arnold: ei fod wedi dychwelyd o’i wyliau a’m bod wedi cael cyfarfod gydag ef ynglyn â honiadau difrifol. Ni ddywedwyd

not told until they had a copy of the letter—the memorandum—which I sent around all the staff. I doubt very much—I cannot swear to this—if I used the words ‘sick leave’ in conversation with the Welsh Office at all.

wrthynt nes iddynt gael copi o'r llythyr—sef memorandwm—a anfonais at bob aelod o'r staff. Yr wyf yn amau'n fawr—ond ni allaf daeru i mi wneud hyn—imi ddefnyddio'r geiriau ‘cyfnod salwch’ mewn trafodaethau â'r Swyddfa Gymreig o gwbl.

[35] Alun Cairns: It is the letter that I am concerned about, the letter of 7 October, which contains the words:

[35] Alun Cairns: Y llythyr sydd yn fy mhryderu, sef y llythyr dyddiedig 7 Hydref, sydd yn cynnwys y geiriau:

‘During his recent absence on sick leave’.

‘Yn ystod ei absenoldeb diweddar ar gyfnod o salwch’.

Mr Ford: That is a copy of the note that was sent to the 500-odd staff of the National Museum of Wales and as it says on the bottom in my hand-written note to the Welsh Office ‘you have not had one of these’. It was a letter that was sent out to tell people what had happened.

Mr Ford: Copi yw hwnnw o'r nodyn a anfonwyd at y 500 aelod o staff yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac fel y dywed ar waelod fy nodyn mewn llawysgrifen i'r Swyddfa Gymreig ‘nid ydych wedi cael un o'r rhain’. Llythyr a anfonwyd er mwyn dweud wrth bobl beth a oedd wedi digwydd ydoedd.

[36] Peter Black: Earlier on you were talking about the process by which you implemented the disciplinary procedure and you said that in an ideal situation you would have given Mr Arnold a written statement of the allegations against him a week before you conducted the interview.

[36] Peter Black: Yn gynharach yr oeddech yn sôn am y broses yr oeddech yn ei defnyddio i weithredu'r weithdrefn ddisgyblu a dywedasoch, mewn sefyllfa ddelfrydol, y byddech wedi rhoi datganiad ysgrifenedig o'r honiadau yn ei erbyn i Mr Arnold wythnos cyn ichi gynnal y cyfweiliad.

Mr Ford: That is what the procedure, which I had led us to write, required.

Mr Ford: Dyna beth oedd yn ofynnol yn ôl y weithdrefn yr oeddwn wedi ein harwain i'w hysgrifennu.

[37] Peter Black: Right. As he was on leave at the time, you decided that it was best to interview him on the first day that he came back from that leave. Paragraph 11 of the financial report states that Mr Arnold told the Auditor General:

[37] Peter Black: O'r gorau. Gan ei fod ar wyliau ar y pryd, penderfynasoch mai'r peth gorau i'w wneud oedd ei gyfweld ar y diwrnod cyntaf iddo ddychwelyd o'i wyliau. Noda paragraff 11 o'r adroddiad ariannol i Mr Arnold ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol:

'that he had continued to press the Museum for an explanation of the allegations that had been made.'

'iddo ddal i bwysu ar yr Amgueddfa am eglurhad ar yr honiadau a wnaed.'

but that 'the Museum had refused to respond to his request'.

ond 'i'r Amgueddfa wrthod ymateb i'w gais'.

Would it not have been appropriate, at the earliest possible opportunity, to provide him with that written statement of the allegations against him?

Oni fyddai wedi bod yn briodol rhoi'r datganiad ysgrifenedig hwnnw o'r honiadau yn ei erbyn iddo ar y cyfle cyntaf posibl?

Mr Ford: I was indeed intending to do that and the document was being prepared. As I think I have already said, he then came back with suggestions that he would like to leave if at all possible, rather than go through that process. Then we did not proceed. I rightly or wrongly—and I

Mr Ford: Yr oeddwn mewn gwirionedd yn bwriadu gwneud hynny ac yr oedd y ddogfen yn cael ei pharatoi. Fel y dywedais eisoes, dychwelodd ataf gydag awgrymiadau yr hoffai adael os oedd yn bosibl, yn hytrach na mynd drwy'r broses honno. Yna nid aethom ymhellach. Yr wyf o'r farn, yn gam

believe rightly, as of course I would—we took the decision that that was the route to follow, that his early leaving of the museum was the best thing, for some of the reasons that I have tried to explain.

[38] Alison Halford: ‘We’?

Mr Ford: I, in consultation with members of Council—in other words, my employers—and with the museum solicitors.

[39] Peter Black: And yet, when you had the informal interviews with Mr Arnold, you only gave him the allegations in general terms, giving some specific examples in relation to one of those. Would it not have been appropriate at that stage to outline the allegations in detail to him, albeit verbally and then to have followed that up by a written record of that?

Mr Ford: I thought, and I told him, that the best thing for us to do was to prepare the detailed document and let him have it, which was what the process required, and I was going to do it. The man had just come back from holiday and I did not think that the

neu’n gymwys—yn gymwys yn fy marn i, fel y byddwn wrth gwrs—inni wneud y penderfyniad mai dyna oedd y llwybr i’w ddilyn, mai iddo adael yr amgueddfa’n gynnar oedd y peth gorau, am rai o’r rhesymau yr wyf wedi ceisio eu hesbonio.

[38] Alison Halford: ‘Ni’?

Mr Ford: Myfi, drwy ymgynghori ag aelodau o’r Cyngor—mewn geiriau eraill, fy nghyflogwyr—a chyda chyfreithwyr yr amgueddfa.

[39] Peter Black: Ac eto, pan gynaliasoch y cyfweiliadau anffurfiol gyda Mr Arnold, dim ond mewn termau cyffredinol y soniasoch wrtho am yr honiadau, gan roi rhai enghreifftiau penodol mewn perthynas ag un o’r rheini. Oni fyddai hi wedi bod yn briodol bryd hynny i roi amlinelliad manwl o’r honiadau iddo, er ar lafar, gan ychwanegu cofnod ysgrifenedig ohonynt wedyn?

Mr Ford: Yr oeddwn o’r farn, a dywedais wrtho, mai’r peth gorau inni ei wneud oedd paratoi’r ddogfen fanwl a’i rhoi iddo, sef yr hyn a oedd yn ofynnol yn ôl y broses, ac yr oeddwn yn bwriadu gwneud hynny. Yr oedd y dyn newydd ddychwelyd o’i wyliau ac nid

first thing to do early in the morning was to give him what would have been a very long list of what our allegations were, because they were only allegations. However, I believe that the seriousness of them, and the documents that had come from the personnel office, made me take them very seriously indeed. They were only allegations and I did not think that that was the right way to start the meeting. I told him that was what was going to happen. The completion of that and handing it over to him was overtaken by events.

[40] Peter Black: I think I can understand that clearly you were trying to do the decent thing and to take account of Mr Arnold's own sensibilities in the way you handled this. However, would you not accept that perhaps it might have been fairer to him if he had had the whole thing up-front from the very beginning so that he could have then considered his position in the light of that? That might then have produced a different outcome, which might not have led to the payment of this sum of money.

Mr Ford: I think that is a valid question and I cannot really answer it. Had it

oeddwn o'r farn mai'r peth cyntaf i'w wneud yn gynnar yn y bore fyddai rhoi rhestr iddo o'n honiadau, a hithau'n rhestr hirfaith, gan mai dim ond honiadau oeddent. Fodd bynnag, credaf i'w difrifoldeb, a'r dogfennau a ddaeth o'r swyddfa bersonél, wneud imi eu cymryd yn hynod o ddifrif. Dim ond honiadau oeddent ac nid oeddwn o'r farn mai dyna oedd y ffordd gywir o ddechrau'r cyfarfod. Dywedais wrtho mai dyna fyddai'n digwydd. Yn sgîl digwyddiadau ni chwblhawyd y ddogfen na'i throsglwyddo iddo.

[40] Peter Black: Credaf y gallaf ddeall eich bod yn amlwg yn ceisio gwneud yr hyn a oedd yn iawn ac ystyried teimladau Mr Arnold ei hun o ran y ffordd y gwnaethoch yn ymdrin â hyn. Fodd bynnag, oni fyddech yn derbyn efallai y byddai wedi bod yn decach iddo ef pe bai'r holl beth wedi bod yn agored o'r cychwyn cyntaf fel y gallai wedyn fod wedi ystyried ei sefyllfa yng ngoleuni hynny? Efallai y byddai hynny wedi arwain at ganlyniad gwahanol, sef un na fyddai wedi arwain at dalu'r swm hwn o arian o bosibl.

Mr Ford: Credaf fod hwnnw'n gwestiwn dilys ac ni allaf ei ateb mewn

helped to avoid any of the things, which it is now suggested that I did wrongly, then of course I should have gone about it in a different way. I do not think in fact that they were serious factors in getting to where we got. You are also questioning, too, whether I should have had a—I do not know—a more macho management style. I was trying to do what I thought was the proper thing.

[41] Peter Black: I think a more human management style can be achieved through being open at the very beginning, but I will leave it at that.

[42] Janet Davies: We now leave the section about the allegations against Mr Arnold. I would like to turn to the terms of the compromise agreement, which we have seen. It seems to me that in this area as well there were problems in that the museum did not at that point either follow its normal disciplinary procedures. Could Anna Southall give any explanation of this?

Ms Southall: Any explanation as to why we abandoned the disciplinary procedure?

gwirionedd. Pe bai wedi helpu i osgoi unrhyw un o'r pethau yr awgrymir bellach fy mod wedi eu gwneud yn anghywir, yna wrth gwrs dylwn fod wedi mynd ati mewn ffordd wahanol. Nid wyf mewn gwirionedd o'r farn eu bod yn ffactorau difrifol o ran cael yr hyn a gawsom. Yr ydych hefyd yn holi a ddylwn fod wedi mabwysiadu dull rheoli mwy *macho*—wn i ddim. Yr oeddwn yn ceisio gwneud yr hyn a oedd yn iawn yn fy marn i.

[41] Peter Black: Credaf y gellid sicrhau dull rheoli mwy dynol drwy fod yn agored ar y cychwyn cyntaf, ond fe adawaf y mater yn y fan honno.

[42] Janet Davies: Yr ydym yn awr yn gadael yr adran am yr honiadau yn erbyn Mr Arnold. Hoffwn droi at delerau'r cytundeb cyfaddawd, yr ydym eisoes wedi'i weld. Ymddengys i mi fod problemau yn y maes hwn hefyd gan na ddilynodd yr amgueddfa bryd hynny ychwaith ei gweithdrefnau disgyblu arferol. A allai Anna Southall roi unrhyw esboniad o hyn?

Ms Southall: Unrhyw esboniad ynglyn â pham y rhoddasom y gorau i'r weithdrefn ddisgyblu?

[43] Janet Davies: Why you did not follow the normal disciplinary procedures in the case of the compromise agreement?

Ms Southall: I think that there were—as I understand it, because I was obviously not a part of these discussions, but having talked to the staff involved and gone through the files—three key principles for pursuing the alternative solution. I think that it is important to emphasise that pursuing an alternative solution met with Mr Arnold's agreement. So that this was not a solution that was in any way forced upon him. I am told that the possibility of a clean outcome— i.e. that Mr Arnold would either be cleared or the allegations substantiated—within three months was deemed unlikely, and we have already heard this.

In investigating the allegations, evidence would need to be taken from quite a significant number of staff. Obviously this would be stressful but I do not think that that was an issue. I think that the important issue was that if dismissal was not the outcome then it was going to be very difficult for those staff to continue to work with Mr Arnold, because the museum is quite a small organisation, as has already been

[43] Janet Davies: Pam na ddilynasoch y gweithdrefnau disgyblu arferol yn achos y cytundeb cyfaddawd?

Ms Southall: Credaf—yn ôl fy nealltwriaeth i, oherwydd, yn amlwg, nid oeddwn yn rhan o'r trafodaethau hyn, ond ar ôl siarad â'r staff dan sylw ac edrych drwy'r ffeiliau—fod tair egwyddor allweddol ar gyfer chwilio am ateb arall. Credaf ei bod yn bwysig pwysleisio bod Mr Arnold wedi cytuno y dylid chwilio am ateb amgen. Felly nid oedd hyn yn ateb a orfodwyd arno mewn unrhyw ffordd. Dywedir wrthyf fod y posibilrwydd o ganlyniad clir— h.y. naill ai y byddai Mr Arnold yn cael ei ddyfarnu'n ddiuog neu y profid bod sail i'r honiadau—o fewn tri mis yn annhebygol, ac yr ydym eisoes wedi clywed hyn.

Wrth ymchwilio i'r honiadau, byddai angen cymryd tystiolaeth gan nifer sylweddol o'r staff. Yn amlwg byddai hyn yn straen ond nid oeddwn yn credu bod hyn yn fater pwysig. Credaf mai'r mater pwysig oedd, onid diswyddiad fyddai'r canlyniad, y byddai'n anodd iawn i'r staff hynny barhau i weithio gyda Mr Arnold, oherwydd mai sefydliad gweddol fach yw'r amgueddfa, fel y nodwyd eisoes,

noted, and the possibility of a sideways move obviously did not really exist. Perhaps the most important principle, as Mr Ford has already said, was value for money for the taxpayer.

The cost of a three-month disciplinary procedure, including legal costs, was estimated to be anything from £35,000 upwards to £54,000. A more likely outcome was a six-month process including an appeal, where costs to the museum were estimated at between £70,000 and £90,000. Then there was the option that Mr Arnold himself proposed which was voluntary redundancy, which I am told would have cost the museum £136,000. All I am trying to do is to present to you the facts at the time. Those appear to me to have been the key principles and the key reasons for going for a compromise agreement at that stage.

[44] Janet Davies: I will return to who actually raised the issue of a possible negotiated settlement originally. Did it come from Mr Arnold's solicitors or did it come from the museum's solicitors?

ac nid oedd y posibilrwydd o symud i'r ochr yn bod mewn gwirionedd. Efallai mai'r egwyddor bwysicaf, fel y dywedodd Mr Ford eisoes, oedd gwerth am arian i'r trethdalwr.

Amcangyfrifwyd y gallai gweithdrefn ddisgyblu tri mis, gan gynnwys costau cyfreithiol, gostio unrhyw beth rhwng £35,000 a £54,000. Canlyniad mwy tebygol oedd proses chwe mis gan gynnwys apêl, lle yr amcangyfrifwyd bod y costau i'r amgueddfa rhwng £70,000 a £90,000. Yna yr oedd y dewis a gynigiwyd gan Mr Arnold ei hun sef diswyddiad gwirfoddol, a dywedwyd wrthyf y byddai hynny wedi costio £136,000 i'r amgueddfa. Y cyfan yr wyf yn ceisio ei wneud ar hyn o bryd yw cyflwyno ichi'r ffeithiau ar y pryd. Ymddengys i mi mai'r rheini oedd yr egwyddorion allweddol a'r rhesymau allweddol dros fynd am gytundeb cyfaddawd bryd hynny.

[44] Janet Davies: Dychwelaf at bwy yn union a gododd y mater o setliad wedi'i negodi posibl yn wreiddiol. Ai cyfreithwyr Mr Arnold a wnaeth hynny ynteu cyfreithwyr yr amgueddfa?

Ms Southall: My understanding is that it emerged from a meeting between Mr Arnold, Mr Ford and senior Council members and both legal advisers were present. I think—as I was not there, you will have to ask Mr Ford if he can recollect where it came from.

[45] Janet Davies: The other thing that I wanted to ask at this point was the issue of raising the cheques. I will ask Mr Ford that.

Mr Ford: Would you like me to give a rider to Ms Southall's answer first?

[46] Janet Davies: Yes.

Mr Ford: I think that is correct. It did come out of that meeting. I cannot be certain of whether it came from our solicitors or Mr Arnold's solicitors. What I do know is that Council officers and myself, once we had discussed the issue, were quite clear that I had to take the advice of our lawyers. I had after all no senior member of staff to give me advice on this because the very person who would normally advise me every step of the way was the one who was being investigated. It was a unanimous view therefore of us internally that museum solicitors had

Ms Southall: Yn ôl fy nealltwriaeth i, deilliodd o gyfarfod rhwng Mr Arnold, Mr Ford ac uwch aelodau o'r Cyngor lle yr oedd y ddau ymgynghorydd cyfreithiol yn bresennol. Credaf—gan nad oeddwn yno, y bydd yn rhaid ichi ofyn i Mr Ford a all gofio o ble y daeth.

[45] Janet Davies: Y peth arall yr oeddwn am holi yn ei gylch yn awr oedd y mater o ysgrifennu'r sicciau. Gofynnaf hynny i Mr Ford.

Mr Ford: A ydych am imi atodi ateb Ms Southall yn gyntaf?

[46] Janet Davies: Ydw.

Mr Ford: Credaf fod hynny'n gywir. Deilliodd o'r cyfarfod hwnnw. Ni allaf fod yn sicr a ddaeth gan ein cyfreithwyr ni ynteu cyfreithwyr Mr Arnold. Gwn fod swyddogion y Cyngor a minnau, wedi inni drafod y mater, yn eithaf pendant fod yn rhaid imi gymryd cyngor ein cyfreithwyr. Wedi'r cyfan nid oedd gennyf unrhyw uwch aelod o staff i roi cyngor imi ar hyn oherwydd yr union berson a fyddai fel arfer yn rhoi cyngor imi bob cam o'r ffordd oedd yr un a oedd yn destun ymchwiliad. Ein barn unfrydol yn fewnol felly oedd bod yn rhaid dod

to be brought in. They made available their head of employment, pensions and licensing: a highly experienced, very knowledgeable adviser who frankly said to me that what I was confronting was in his world a pretty normal parting of the ways. That this sort of path was well-trodden in organisations and that he thought that Mr Arnold's solicitors and himself would be able to settle it pretty quickly, given that Mr Arnold had indicated that he would like to leave straightaway, if that were possible. Where in that conversation somebody said 'I think we can come to a compromise agreement pretty quickly' and whether that came from Mr Arnold's solicitors or ours, I do not remember, and the note of the meeting does not tell me.

[47] Janet Davies: Were the museums' solicitors, Eversheds, aware of the financial memorandum?

Mr Ford: I do not know the answer to that.

[48] Janet Davies: Well, do you not think that they should have been aware of the memorandum? It was absolutely crucial in this situation.

â chyfreithwyr yr amgueddfa i mewn. Gwnaethpwyd eu pennaeth cyflogaeth, pensiynau a thrwyddedu ar gael inni: ymgynghorydd tra phrofiadol a hyddysg iawn a ddywedodd wrthyf yn onest fod yr hyn yr oeddwn yn ei wynebu yn ei fyd ef yn ymwahaniad eithaf arferol. Bod y math hwn o lwybr yn un cyfarwydd iawn mewn sefydliadau a'i fod o'r farn y gallai cyfreithwyr Mr Arnold ac yntau ei setlo'n eithaf cyflym, o gofio fod Mr Arnold wedi nodi ei fod yn awyddus i adael ar unwaith, pe bai hynny'n bosibl. P'un a ddywedodd rhywun yn ystod y sgwrs honno 'Credaf y gallwn ddod i gytundeb cyfaddawd yn eithaf cyflym' ac a ddywedwyd hynny gan gyfreithwyr Mr Arnold neu gan ein rhai ni, ni allaf gofio, ac nid yw'r nodyn o'r cyfarfod yn dweud wrthyf.

[47] Janet Davies: A oedd cyfreithwyr yr amgueddfa, Eversheds, yn ymwybodol o'r memorandwm ariannol?

Mr Ford: Ni wn yr ateb i hynny.

[48] Janet Davies: Wel, onid ydych yn credu y dylent fod wedi bod yn ymwybodol o'r memorandwm? Yr oedd yn hollol hanfodol yn y sefyllfa hon.

Mr Ford: Well, I was not asking them to give me advice on the financial memorandum or indeed on my dealings with the Welsh Office. I was asking them to give me advice on a very difficult and sensitive and overdue employment issue.

Mr Ford: Wel, nid oeddwn yn gofyn iddynt roi cyngor imi ar y memorandwm ariannol nac ychwaith ar fy nhrafodaethau â'r Swyddfa Gymreig. Yr oeddwn yn gofyn iddynt roi cyngor i mi ar fater o gyflogaeth anodd a sensitif iawn yr oedd yn hen bryd mynd i'r afael ag ef.

[49] Dafydd Wigley: I fynd ar ôl y pwynt oedd Colin Ford yn ei wneud, sef bod yr ymaferiad yn un digon arferol efallai yn y sector breifat—dod i ddealltwriaeth ariannol a bod rhywun yn gadael yn dawel. A fyddech yn derbyn bod rhywbeth felly, sydd o bosibl yn dderbyniol yn y sector preifat, neu efallai ddim, yn sicr ddim yn dderbyniol yn y sector cyhoeddus, pan ydym yn sôn am ddelio ag arian cyhoeddus—rhoi allan £30,000 o arian cyhoeddus—ac os oedd Mr Arnold yn dymuno gadael o dan yr amgylchiadau, onid oedd yn ddewis iddo adael heb i unrhyw daliad gael ei wneud?

[49] Dafydd Wigley: To follow up the point that Colin Ford was making, namely that the practice is commonplace enough in the private sector—to come to a financial agreement and that someone leaves quietly. Would you accept that such a thing, which is possibly acceptable in the private sector, or perhaps not, is certainly not acceptable in the public sector, when we are talking about dealing with public money—giving out £30,000 of public money—and that if Mr Arnold wished to leave under the circumstances, was it not an option for him to leave without any payment being made?

Mr Ford: I do not think that that was a possibility. I do accept that there is a very big difference between the private sector and the public sector, and I think that I have to accept that even in talking to this highly professional employment adviser, there was an

Mr Ford: Nid wyf o'r farn fod hynny'n bosibilrwydd. Yr wyf yn derbyn bod gwahaniaeth mawr rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus, a chredaf fod yn rhaid imi dderbyn hyd yn oed wrth siarad â'r ymgynghorydd cyflogaeth hynod broffesiynol hwn,

element of Welsh Office practice, of proper governmental practice, that I did not quite understand and did not therefore follow. I cannot deny that. However, when Mr Arnold suggested that he would like to take the course of early retirement, it was of course quite clear that that would be if some sort of money was on the table. Were he not to have some money offered to him, I have no doubt at all that he would have insisted on going through the whole disciplinary and appeal process, and as Ms Southall has already said, the very cheapest that anyone told us that would be would be £35,000. The most expensive was £136,000. I therefore thought that whether I was following proper government practice or not, and I can see and know the error of that now—it is too late to do anything about that—I did at least believe that I was acting with the best interests of the taxpayer at heart, given the money that would have to be spent.

[50] Geraint Davies: This is to Ms Southall. If Mr Ford would like to come in with additional information, please do so. This is to do with your solicitors. They should have known, or have been made aware, that

bod elfen o arfer y Swyddfa Gymreig, sef arfer priodol y llywodraeth, nad oeddwn yn ei ddeall yn llwyr ac felly nas dilynais. Ni allaf wadu hynny. Fodd bynnag, pan awgrymodd Mr Arnold yr hoffai ddilyn llwybr ymddeoliad cynnar, yr oedd wrth gwrs yn eithaf clir y byddai hynny yn digwydd ar y sail bod rhywfaint o arian ar y bwrdd. Pe na chynigid rhywfaint o arian iddo, nid oes unrhyw amheuaeth gennyf o gwbl y byddai wedi mynnu mynd trwy'r broses ddisgyblu ac apelio gyfan, ac fel y dywedodd Ms Southall eisoes, y rhataf y dywedodd unrhyw un wrthym y byddai hynny'n ei gostio oedd £35,000. Y drutaf oedd £136,000. Yr oeddwn felly o'r farn, boed a oeddwn yn dilyn arfer priodol y llywodraeth ai peidio, a gallaf ddeall fod hynny'n anghywir yn awr, a gwn hynny—mae'n rhy hwyr i wneud unrhyw beth yn ei gylch—fy mod yn credu o leiaf fy mod yn gweithredu gan ystyried buddiannau'r trethdalwr, o gofio'r arian y byddai'n rhaid ei wario.

[50] Geraint Davies: Mae'r cwestiwn hwn i Ms Southall. Os yw Mr Ford am ddod i mewn â gwybodaeth ychwanegol, mae croeso ichi wneud hynny. Mae'n ymwneud â'ch cyfreithwyr. Dylent fod wedi gwybod,

agreements of this nature go against best public sector practice. Do you therefore think that the museum was poorly advised?

Ms Southall: Do I think that the museum was poorly advised at that time? I think that it is incumbent upon us, as the museum working in the public sector, to ensure that our legal advisers are fully aware of government accounting rules and other rules concerning practice in the public sector. It is my understanding that in fact these solicitors do a lot of work in the public sector and, I suspect, actually are quite well informed. Nonetheless, the obligation is clearly with us to ensure that they understand what rules we are playing by.

[51] Geraint Davies: You pay the solicitors a lot of money. I would have thought that you expect the correct advice. That is what you are paying these solicitors for: up-to-date, correct advice. You therefore believe that it was your responsibility to make sure that they knew what was going on?

neu dylai rhywun fod wedi sicrhau eu bod yn ymwybodol, fod cytundebau o'r fath yn groes i arfer y sector cyhoeddus. A ydych felly o'r farn fod yr amgueddfa wedi cael cyngor gwael?

Ms Southall: A wyf yn credu i'r amgueddfa gael cyngor gwael ar y pryd? Credaf ei fod yn ddyletswydd arnom, fel amgueddfa sydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus, i sicrhau bod ein hymgynghorwyr cyfreithiol yn llwyr ymwybodol o reolau cyfrifo'r llywodraeth a rheolau eraill sydd yn ymwneud ag arfer yn y sector cyhoeddus. Fy nealltwriaeth i mewn gwirionedd yw bod y cyfreithwyr hyn yn gwneud llawer o waith yn y sector cyhoeddus a thybiaf eu bod yn eithaf hyddysg a dweud y gwir. Serch hynny, mae'n amlwg bod rheidrwydd arnom i sicrhau eu bod yn deall pa reolau yr ydym yn eu dilyn.

[51] Geraint Davies: Yr ydych yn talu llawer o arian i'r cyfreithwyr. Byddwn wedi tybio y byddech yn disgwyl y cyngor cywir. Am hynny yr ydych yn talu i'r cyfreithwyr hyn: y cyngor cywir diweddaraf. Felly yr ydych yn credu mai eich cyfrifoldeb chi oedd gwneud yn siwr eu bod yn gwybod beth oedd yn digwydd?

Ms Southall: **No. Sorry, I probably was not quite clear. I feel that it is our responsibility to make sure that they fully understand the accounting and other rules that we, as government accounting officers, are abiding by. I find it quite difficult to accept that we should rely on their knowledge of our management statement and financial memorandum. I do feel that we do have an obligation to make sure that we understand it and that we make it clear therefore to our legal advisers. Forgive me if I am wrong, but that would be my understanding of what my responsibilities are.**

[52] Geraint Davies: **So you do not think there are any grounds to take any action against the solicitors for negligence?**

Ms Southall: **No, I do not. However, if I receive advice to the contrary then obviously we would need to look into it. As things stand, I feel that we should know what the rules are.**

[53] Geraint Davies: **Mr Ford, do you want to comment on that?**

Ms Southall: **Nac ydw. Mae'n ddrwg gennyf, mae'n debyg nad oeddwn yn ddigon clir. Teimlaf mai ein cyfrifoldeb ni yw gwneud yn siwr eu bod yn llwyr ddeall y rheolau cyfrifo a'r rheolau eraill yr ydym ni, fel swyddogion cyfrifo'r llywodraeth, yn glynu wrthynt. Mae'n eithaf anodd gennyf dderbyn y dylem ddibynnu ar eu gwybodaeth o'n datganiad rheoli a'n memorandwm ariannol. Teimlaf fod arnom reidrwydd i sicrhau ein bod yn ei ddeall a'n bod yn ei wneud yn glir felly i'n hymgynghorwyr cyfreithiol. Maddeuwch i mi os wyf yn anghywir, ond dyna fyddai fy nealltwriaeth i o'm cyfrifoldebau.**

[52] Geraint Davies: **Felly nid ydych o'r farn fod unrhyw sail i gymryd camau yn erbyn y cyfreithwyr am esgeulustod?**

Ms Southall: **Nac ydwyf. Fodd bynnag, os byddaf yn derbyn cyngor i'r gwrthwyneb yna byddai'n rhaid inni edrych i mewn i'r mater wrth reswm. Fel y saif pethau, teimlaf y dylem wybod beth yw'r rheolau.**

[53] Geraint Davies: **Mr Ford, a ydych am wneud sylw ar hynny?**

Mr Ford: In any situation like this I would normally have expected that I could turn to at least three places for advice. One would be my compliance officer. Well, he is the chap under investigation, so that it is not open to me. The second would be our solicitors. You are quite right, they are very highly paid; they are very professional, very experienced solicitors. I do not mean this to be an excuse, because ultimately the responsibility stops at my desk. There is nowhere else where that responsibility lies. However, I think that I have every right to rely on the advice, to believe that advice that I was given at that kind of level was dependable. The third source of advice is obviously my sponsor department. I did have discussions with the Welsh Office. It seems to me there may be some element of disagreement about how much I had got guidance from them and how much I thought I had got from them. However, those are my three sources of information.

[54] Geraint Davies: And do you think that the solicitors acted negligently in not giving you the absolutely correct advice?

Mr Ford: Mewn unrhyw sefyllfa fel hon byddwn fel arfer wedi disgwyl y gallwn droi at o leiaf dri lle i gael cyngor. Un fyddai fy swyddog cydymffurfio. Wel, ef yw'r dyn sydd yn destun ymchwiliad, felly nid yw hynny'n agored imi. Yr ail fyddai ein cyfreithwyr. Yr ydych yn llygaid eich lle, maent yn cael eu talu'n hael iawn; maent yn gyfreithwyr proffesiynol a phrofiadol iawn. Nid wyf yn defnyddio hynny fel esgus, oherwydd yn y pen draw y mae'r cyfrifoldeb arnaf fi. Nid yw'r cyfrifoldeb hwnnw mewn un man arall. Fodd bynnag, credaf fod gennyf bob hawl i ddibynnu ar y cyngor, i gredu bod y cyngor a roddwyd imi ar lefel o'r math hwnnw yn ddibynadwy. Y drydedd ffynhonnell o gyngor yn amlwg yw fy adran noddi. Cefais drafodaethau â'r Swyddfa Gymreig. Ymddengys i mi y gallai fod ryw elfen o anghytuno ynghylch i ba raddau y cefais arweiniad ganddynt a faint y tybiais imi ei gael ganddynt. Fodd bynnag, dyna fy nhair ffynhonnell gwybodaeth.

[54] Geraint Davies: Ac a ydych yn credu bod y cyfreithwyr wedi gweithredu'n esgeulus wrth beidio â rhoi'r union gyngor cywir ichi?

Mr Ford: Well, they certainly did not warn me that I was running into difficulties. Indeed, the reverse, as I have already said. They suggested to me—and Mr Wigley is quite right in pointing that there is a rather serious difference between the private and the public sector—that we were going down a route that they followed very frequently.

[55] Geraint Davies: So you do not think there is any action that you could take against them?

Mr Ford: Well, I also agree with my successor. In the end, as I have just said, the responsibility stops at the accounting officer's desk.

[56] Geraint Davies: On what grounds, Ms Southall, are you satisfied that the negotiated settlement was the best option, given that a settlement implies that there was fault in both Mr Arnold's and the museum's actions, that there was fault on both sides? Do you agree that there was fault on both sides?

Ms Southall: In terms of the fact that this was an issue that should have been dealt with many years before, and that if had been the outcome might have been different, yes.

Mr Ford: Wel, yn sicr ni wnaethant fy rhybuddio fy mod yn wynebu trafferthion. Yn wir, i'r gwrthwyneb, fel y dywedais eisoes. Awgrymwyd i mi—ac mae Mr Wigley yn hollol gywir wrth nodi bod gwahaniaeth mawr rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus—ein bod yn dilyn trywydd yr oeddent yn ei ddilyn yn aml iawn.

[55] Geraint Davies: Felly nid ydych yn credu bod unrhyw gamau y gallech eu cymryd yn eu herbyn?

Mr Ford: Wel, yr wyf hefyd yn cytuno gyda'm holynydd. Yn y pen draw, fel yr wyf newydd ei ddweud, ar ddesg y swyddog cyfrifo y bydd y cyfrifoldeb yn aros.

[56] Geraint Davies: Ar ba sail, Ms Southall, yr ydych yn fodlon mai'r setliad a negodwyd oedd yr opsiwn gorau, o gofio fod setliad yn awgrymu bod bai ar y camau a gymerwyd gan Mr Arnold a'r amgueddfa, bod bai ar y ddwy ochr? A ydych yn cytuno bod bai ar y ddwy ochr?

Ms Southall: O ran y ffaith bod hwn yn fater y dylid fod wedi ymdrin ag ef flynyddoedd ynghynt, a phetai hynny wedi digwydd y gallai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol, ydwyf.

[57] Geraint Davies: **So there was fault on both sides?**

[57] Geraint Davies: **Felly yr oedd bai ar y ddwy ochr?**

Ms Southall: **There were allegations of fault on Mr Arnold's side.**

Ms Southall: **Yr oedd honiadau o fai ar ochr Mr Arnold.**

[58] Geraint Davies: **The museum was at fault in that Mr Arnold had not been picked up earlier on his bad management style or whatever misdemeanours he was accused of. Is it solely that?**

[58] Geraint Davies: **Yr oedd yr amgueddfa ar fai yn yr ystyr nad ymdriniwyd â dull rheoli gwael Mr Arnold neu pa gamweddau bynnag y cafodd ei gyhuddo ohonynt yn gynharach. Ai dyna'n unig ydyw?**

Ms Southall: **I think that is where the museum, inadvertently, made matters worse, yes—by the situation not being recognised and not being dealt with much more swiftly under whatever procedure would have been appropriate.**

Ms Southall: **Credaf mai dyna pryd y bu i'r amgueddfa, yn ddiarwybod, waethygu'r sefyllfa, ie—gan na chafodd y sefyllfa ei chydnabod a chan nad ymdriniwyd â hi'n llawer cynt o dan ba weithdrefn bynnag a fyddai wedi bod yn briodol.**

[59] Geraint Davies: **You think that he would have had a grievance, then, against the museum on that point?**

[59] Geraint Davies: **Yr ydych o'r farn y byddai ganddo gwyn, felly, yn erbyn yr amgueddfa ar y pwynt hwnnw?**

Ms Southall: **It is speculating, but yes, I would suspect that had the disciplinary procedure progressed, that that would have been an important part of his defence, as it were. However, that is speculation.**

Ms Southall: **Dyfalw yr wyf, ond ydwyf, yr wyf yn amau petai'r weithdrefn ddisgyblu wedi mynd rhagddi, y byddai hynny wedi bod yn rhan bwysig o'i amddiffyniad, fel petai. Fodd bynnag, dyfalw yr wyf.**

[60] Geraint Davies: In paragraph 10, it states that ‘a range of options’ was considered including early retirement and redundancy. What were these options, and what form did their costed appraisal take? Did you cost each one of them?

Ms Southall: Yes, we did. I understand that early retirement or redundancy would have cost of the order of £136,000 and that one of options that was suggested was early retirement on grounds of ill-health. That was not pursued, so that was never costed. The other options were the compromise agreement that you know about, or disciplinary procedure. As I said, that might have cost anything, I am told, between £35,000 and £90,000 depending on how long it went on.

[61] Geraint Davies: Returning to a previous point, if this agreement constituted a full and final settlement of any claims that Mr Arnold might have had against the museum, what possible claims could Mr Arnold have had? Was it just that, as you said before, it had gone on for a long time and nothing had been done about it? Was that all?

[60] Geraint Davies: Ym mharagraff 10, nodir bod ‘amryw o ddewisiadau’ wedi eu hystyried gan gynnwys ymddeoliad cynnar a diswyddiad. Beth oedd yr opsiynau hyn, a sut y gwnaethpwyd eu gwerthusiad cost? A wnaethoch brisio pob un ohonynt?

Ms Southall: Do, fe wnaethom hynny. Deallaf y byddai ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad wedi costio tua £136,000 ac mai un o’r opsiynau a awgrymwyd oedd ymddeoliad cynnar ar sail gwaeledd. Nid aethpwyd ar ôl hynny, felly ni chafodd ei brisio. Yr opsiynau eraill oedd y cytundeb cyfaddawd y gwyddoch amdano, neu’r weithdrefn ddisgyblu. Fel y dywedais, gallai hynny fod wedi costio unrhyw beth rhwng £35,000 a £90,000 yn dibynnu ar hyd y broses.

[61] Geraint Davies: Gan ailafael mewn pwynt blaenorol, petai’r cytundeb hwn yn gyfystyr â setliad llawn a therfynol o unrhyw honiadau y gallai fod gan Mr Arnold yn erbyn yr amgueddfa, pa honiadau posibl y gallai fod gan Mr Arnold? Fel y dywedasoeh o’r blaen, ai dim ond oherwydd bod hyn wedi parhau am cyhyd ac na wnaethpwyd unrhyw beth yn ei gylch? Ai dyna’r cyfan?

Ms Southall: I presume—I may be wrong—that that clause in an agreement of this nature in part prevents the employee who is leaving the employment of the organisation from taking the organisation to an industrial tribunal.

[62] Geraint Davies: On what issue? Were you afraid of anything in particular or was it a general clause?

Ms Southall: This was a mutually agreed compromise agreement. Mr Arnold agreed to it and it was signed by both parties. However, I suppose that that clause is there to say, if in five years' time you change your mind, it is too late. We must remember that this was a compromise agreement between the two parties, so both sides were comfortable with signing it with that clause in place. Forgive me, I am speculating again. Other than that, I am not sure to what that clause might refer.

Mr Ford: I am happy to add that the compromise agreement, as I understood it at the time, was something which—I was about to say our lawyer already had on his

Ms Southall: Tybiaf—hwyrach fy mod yn anghywir—bod y cymal hwnnw mewn cytundeb o'r math hwn yn rhannol atal y gweithiwr sydd yn gadael cyflogaeth y sefydliad rhag - dwyn y sefydliad gerbron tribiwnlys diwydiannol.

[62] Geraint Davies: Ar ba fater? A oeddech yn ofni unrhyw beth yn benodol neu a oedd yn gymal cyffredinol?

Ms Southall: Yr oedd hwn yn gytundeb cyfaddawd y cytunodd y ddwy ochr arno. Cytunodd Mr Arnold iddo ac fe'i llofnodwyd gan y ddau barti. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y cymal yno i nodi, os byddwch yn newid eich meddwl ymhen pum mlynedd, ei bod yn rhy hwyr. Mae'n rhaid inni gofio mai cytundeb cyfaddawd oedd hwn rhwng y ddau barti, felly yr oedd y ddwy ochr yn fodlon ar ei lofnodi gyda'r cymal hwnnw ynddo. Maddeuwch i mi, yr wyf yn dyfalu eto. Ar wahân i hynny, nid wyf yn siwr at beth y gallai'r cymal hwnnw gyfeirio.

Mr Ford: Yr wyf yn fodlon ychwanegu bod y cytundeb cyfaddawd, yn ôl fy nealltwriaeth ohono ar y pryd, yn rhywbeth a oedd—yr oeddwn ar fin dweud ei fod eisoes ar gyfrifiadur ein

computer before we discussed the rest of the business. In fact, both lawyers probably had it on their computers. It was a pretty standard compromise agreement form. Most of the clauses in it, or at least most of the matters tackled in it, are laid down or covered by the Employment Rights Act 1996. As I have told you before, this is the only time that I have been involved in one of these things but, as I understand, what happens is that the form is peeled off the computer and the two lawyers go through it to see if anything needs to be changed. It is a standard clause that the man is going to be paid to settle any conceivable matters, without referring to any in particular. I was not aware of any in particular. The same applies to the confidentiality agreement. It is designed to remind the employee that he was an employee of the company and that, as part of that, the company expected confidentiality of him, it then goes on to list, in terms of computer programmes, files, documents, the company's commercial activities, and so on. These are standard clauses and I had little to do with drawing up the document, because it was a standing document.

cyfreithiwr cyn inni drafod gweddill y busnes. Mewn gwirionedd, mae'n debyg ei fod ar gyfrifiaduron y ddau gyfreithiwr. Ffurflen cytundeb cyfaddawd eithaf safonol ydoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cymalau sydd ynddo, neu o leiaf y rhan fwyaf o'r materion yr ymdrinnir â hwy ynddo, wedi eu nodi neu eu cwmpasu gan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Fel y dywedais wrthy ch eisoes, dyma'r unig adeg imi fod yn rhan o un o'r pethau hyn ond, fel y deallaf, yr hyn sydd yn digwydd yw bod y ffurflen yn cael ei hargraffu oddi ar y cyfrifiadur a bod y ddau gyfreithiwr yn mynd trwyddi i weld a oes angen newid unrhyw beth. Mae'n gymal safonol y caiff y dyn ei dalu er mwyn setlo unrhyw faterion posibl, heb gyfeirio at unrhyw un yn benodol. Nid oeddwn yn ymwybodol o unrhyw fater yn benodol. Mae'r un peth yn wir am y cytundeb cyfrinachedd. Ei bwrpas yw atgoffa'r gweithiwr y bu'n gweithio i'r cwmni ac, fel rhan o hynny, bod y cwmni'n disgwyl cyfrinachedd ganddo, yna mae'n mynd ymlaen i restru, o ran rhaglenni cyfrifiadurol, ffeiliau, dogfennau, gweithgareddau masnachol y cwmni, ac ati. Mae'r rhain yn gymalau safonol a phrin y bûm yn gysylltiedig â llunio'r ddogfen, gan ei bod yn ddogfen sefydlog.

[63] Alison Halford: Please tell me, Mr Ford, if I have got it wrong, but my note says that you took advice from lawyers who said it was a pretty normal parting of the ways. You then said that you did not ask lawyers for financial advice. When an employee is leaving against his or her will, there is always a financial bill to settle. Are you telling the Committee that you had no interest whatsoever in this vastly important matter of a legal cost, particularly when Ms Southall has come up with a wonderful shopping basket of costings for the various things that would or could have happened? There seems to be an anomaly with your refusal to ask your lawyers for financial advice—the crux of Arnold’s departure.

Mr Ford: Forgive me, I did not think that I said I was not interested in financial advice. I thought I said that I did not expect them to tell me what was in the museum’s financial memorandum. I venture to suggest that that is dramatically different. Of course I wanted their financial advice. I have already said that I believed that it was my responsibility to settle this matter at the best possible value for

[63] Alison Halford: Dywedwch wrthyf os gwelwch yn dda, Mr Ford, os wyf yn anghywir, ond mae fy nodyn yn dweud ichi gymryd cyngor gan gyfreithwyr a ddywedodd ei fod yn ymwahaniad eithaf arferol. Dywedasoeh wedyn na wnaethoch ofyn i’r cyfreithwyr am gyngor ariannol. Pan fydd gweithiwr yn gadael yn erbyn ei ewyllys neu ei hewyllys, mae bil ariannol i’w dalu bob tro. A ydych yn dweud wrth y Pwyllgor nad oedd gennych unrhyw ddiddordeb o gwbl yn y mater holl bwysig hwn o gost gyfreithiol, yn arbennig wedi i Ms Southall gyflwyno basged siopa wych yn llawn costau ar gyfer yr amrywiol bethau a fyddai neu a allai fod wedi digwydd? Ymddengys bod anghysondeb gan ichi wrthod gofyn i’ch cyfreithwyr am gyngor ariannol—sef craidd ymadawiad Arnold.

Mr Ford: Maddeuwch i mi, nid oeddwn yn credu imi ddweud nad oedd gennyf ddiddordeb mewn cyngor ariannol. Credaf imi ddweud nad oeddwn yn disgwyl iddynt ddweud wrthyf beth oedd cynnwys memorandwm ariannol yr amgueddfa. Mentraf awgrymu bod hynny gryn dipyn yn wahanol. Wrth gwrs fy mod am gael eu cyngor ariannol. Yr wyf eisoes wedi dweud fy mod yn credu mai fy nghyfrifoldeb i

money. This wonderful shopping list existed at the time. We were given estimates of what it would cost if we pursued all the alternative routes. The cheapest possible route, it was thought, even if we went through the whole disciplinary procedure, was likely to involve paying at least his salary for six months. His salary for six months was slightly more than £30,000, so the settlement that we made was, even on the cheapest of all options, the best value for money that we could attain. I certainly wanted their financial advice. I said that I thought it was not their responsibility—perhaps I am wrong—to tell me what the terms of our agreement with the Welsh Office were.

oedd setlo'r mater hwn gan sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Yr oedd y rhestr siopa wych hon yn bodoli ar y pryd. Rhoddwyd amcangyfrifon inni o'r hyn y byddai'n ei gostio petaem yn dilyn yr holl lwybrau eraill. Yr oedd lle i gredu y byddai'r llwybr rhataf posibl, hyd yn oed petaem yn mynd drwy'r broses ddisgyblu gyfan, yn debygol o olygu o leiaf talu ei gyflog am chwe mis. Yr oedd ei gyflog am chwe mis ychydig yn fwy na £30,000, felly y setliad a wnaethpwyd gennym, hyd yn oed ar yr opsiwn rhataf un, oedd y gwerth gorau am arian o fewn ein cyrraedd. Yr oeddwn yn bendant eisiau eu cyngor ariannol. Dywedais fy mod yn credu nad eu cyfrifoldeb hwy—efallai fy mod yn anghywir—oedd dweud wrthyf beth oedd termau ein cytundeb â'r Swyddfa Gymreig.

[64] Alison Halford: I accept that my note was wrong—I am certainly not infallible. Your lawyers did tell you that it was going to cost you £30,000 plus his costs?

[64] Alison Halford: Yr wyf yn derbyn bod fy nodyn yn anghywir—yn sicr nid wyf yn ddiffael. A ddywedodd eich cyfreithwyr wrthyfch y byddai'n costio £30,000 ichi ynghyd â'i gostau?

Mr Ford: Yes. I had to agree that.

Mr Ford: Do. Yr oedd yn rhaid imi gytuno ar hynny.

[65] Alun Pugh: I want to take you down a well-trodden legal path of disagreements within organisations.

[65] Alun Pugh: Yr wyf am eich tywys ar hyd llwybr cyfreithiol cyfarwydd iawn o anghytundeb o fewn

You said that the lawyers simply peel these phrases off their computers. Apparently, we are asked to believe that big pay-offs, gagging clauses and dodgy references are standard parts of corporate ethics. I accept that some parts of the private sector do not have problems with ethics and probity, but are you telling me that, as an accounting officer, you did not understand that this practice was unacceptable in a public sector organisation?

Mr Ford: I did not believe at any stage of the process, and I do not believe it now, that we were doing anything unethical. Quite the reverse.

[66] Brian Gibbons: I want to return to Geraint's point. I am still not clear what right—as part of an agreement—Mr Arnold had to any money. He was lucky to escape with his reputation, since he was going to be given a pretty bland reference. Why did the museum feel that it was in such a weak negotiating position vis-à-vis Mr Arnold that it could not tell him he should be thankful that he was getting away with this? To claim that part of

sefydliadau. Dywedasoeh wrthyf mai'r cwbl a wna'r cyfreithwyr yw argraffu'r ymadroddion hyn oddi ar eu cyfrifiaduron. Yn ôl pob tebyg, gofynnir inni gredu bod taliadau mawr, cymalau tawelu a geirdaon amheus yn rhan safonol o foeseg gorfforaethol. Yr wyf yn derbyn nad oes gan rai rhannau o'r sector preifat broblemau gyda moeseg a gonestrwydd, ond a ydych yn dweud wrthyf nad oeddech chi, fel swyddog cyfrifo, yn deall bod yr arfer hwn yn annerbyniol mewn sefydliad sector cyhoeddus?

Mr Ford: Nid oeddwn yn credu, ac ni chredaf hynny yn awr, yn ystod unrhyw gam o'r broses, ein bod wedi gwneud unrhyw beth anfoesol. I'r gwrthwyneb.

[66] Brian Gibbons: Hoffwn ailafael ym mhwynt Geraint. Nid wyf yn glir o hyd pa hawl—fel rhan o gytundeb—a oedd gan Mr Arnold i unrhyw arian. Yr oedd yn ffodus i ffoi gyda'i enw da, gan mai geirda digon di-liw y byddai'n ei gael. Pam yr oedd yr amgueddfa o'r farn ei bod mewn sefyllfa negodi mor wan mewn perthynas â Mr Arnold fel na allai ddweud wrtho y dylai fod yn ddiolchgar ei fod yn osgoi cosb yn hyn o beth? Mae honni mai rhan o'r

the reason was that the museum would have to have paid a penalty for failing to pick up this problem earlier is like fining the police for not picking up a criminal at an earlier stage. That is no reason for justifying such a payment.

rheswm oedd y ffaith y byddai'n rhaid i'r amgueddfa fod wedi talu dirwy am fethu â sylwi ar y broblem hon yn gynharach yn gyfystyr â dirwyo'r heddlu am beidio a dal troseddwr yn gynharach. Nid yw hynny'n rheswm dros gyfiawnhau taliad o'r fath.

Mr Ford: I am not quite sure how you think we could have got a no-cost option. Are you suggesting that, without even investigating the allegations, I should have fired him on the spot without any pay?

Mr Ford: Nid wyf yn siwr iawn sut yr ydych yn credu y byddai gennym opsiwn di-gost. A ydych yn awgrymu y dylwn fod wedi ei ddiswyddo yn y fan a'r lle heb unrhyw dâl, heb hyd yn oed ymchwilio i'r honiadau?

[67] Brian Gibbons: No. There was a disciplinary procedure to be followed.

[67] Brian Gibbons: Nac ydw. Yr oedd gweithdrefn ddisgyblu i'w dilyn.

Mr Ford: I have already said that that would take around six months and would cost more than £30,000.

Mr Ford: Yr wyf eisoes wedi dweud y byddai hynny'n cymryd tua chwe mis ac y byddai'n costio mwy na £30,000.

[68] Brian Gibbons: Mr Arnold should have been lucky to get away with his reputation.

[68] Brian Gibbons: Dylai Mr Arnold fod wedi bod yn lwcus i ddianc gyda'i enw da.

Mr Ford: Well, that is as may be.

Mr Ford: Wel, digon posibl.

[69] Brian Gibbons: He should not have expected £30,000 to help him on his way.

[69] Brian Gibbons: Ni ddylai fod wedi disgwyl £30,000 i roi help llaw iddo wrth adael.

Mr Ford: I can only go back to the fact that all the advice I had—and nobody has suggested anything to me since—did not suggest that there would be any way one could have got away with less than £30,000.

Mr Ford: Gallaf ond dychwelyd at y ffaith nad oedd unrhyw gyngor a gefais—ac nid oes unrhyw un wedi awgrymu unrhyw beth imi ers hynny—yn awgrymu y byddai unrhyw ffordd y byddem wedi gallu osgoi talu llai na £30,000.

[70] Alison Halford: I wonder what the head of human resources who brought the matter to notice thought.

[70] Alison Halford: Tybed beth fyddai'r pennaeth adnoddau dynol a ddaeth â'r mater i'r amlwg yn ei feddwl.

[71] Janet Davies: I am not going to allow that question.

[71] Janet Davies: Nid wyf am ganiatáu'r cwestiwn hwnnw.

[72] Dafydd Wigley: Mae un pwynt yn codi o hyn. A oeddech yn meddwl, pe bai Mr Arnold yn gadael trwy setliad o'r math hwn, na fyddai staff ar unrhyw lefel wedi bod yn ymwybodol fod cyhuddiadau yn ei erbyn ac y gellid cadw hynny o sylw'r staff am gyfnod penagored?

[72] Dafydd Wigley: One point arises from this. Did you think that, if Mr Arnold left through a settlement of this kind, staff on any level would not have been aware that allegations had been made against him and that that could have been kept from staff for an open-ended period?

Mr Ford: That is an incredibly difficult question to answer and I do not know the answer. I would have to be part of the museum and its culture now to know what the view is of how and why Mr Arnold left.

Mr Ford: Mae hwnnw'n gwestiwn hynod o anodd i'w ateb ac ni wn yr ateb iddo. Byddai'n rhaid imi fod yn rhan o'r amgueddfa a'i diwylliant yn awr er mwyn gwybod beth yw'r farn ynghylch sut a pham y gadawodd Mr Arnold.

[73] Dafydd Wigley: Yr wyf yn pwysu'r pwynt hwn oherwydd os oedd hi'n bosibl—ac o'r ateb a gawsom, yr oedd yn bosibl os nad yn debygol—fod y cyhuddiadau yn wybyddus i bobl eraill a'i bod yn amlwg nad oedd gweithredu caled, trwy ddisgyblaeth, wedi bod yn erbyn y swyddog hwn, onid oedd hynny'n rhoi'r neges anghywir i staff eraill a allai gael eu temtio i weithredu mewn ffordd annerbyniol? Hynny yw, bod cyfrifoldeb i weithredu, nid yn unig i gosbi'r unigolyn, ond fel esiampl i bawb arall ac i ddangos bod gweithredu yn agored, yn glir ac yn gyfiawn.

Mr Ford: I certainly do not believe that one should always use this course of action with every employee. I have tried to explain why I thought that they were very particular cases of history, both of the employee and of the museum's behaviour, and of timing. The timing was very, very difficult and unfortunate.

[74] Janet Davies: We will turn now to the compensation payment for Tim Arnold. Alun Cairns, would you like to ask some questions?

[73] Dafydd Wigley: I am pressing this point because if it was possible—and from the answer we have received, it was possible if not probable—that the allegations were known to other people and that it was evident that firm action, through discipline, had not been taken against this official, did that not give the wrong message to other staff who might be tempted to act in an unacceptable manner? That is, there is a responsibility to act, not only to punish the individual, but as an example to other people and to show that the action is open, clear and just.

Mr Ford: Yn sicr nid wyf yn credu y dylid cymryd y camau hyn bob tro gyda phob gweithiwr. Yr wyf wedi ceisio esbonio pam y credwn eu bod yn achosion tra phenodol o ran ymddygiad y gweithiwr a'r amgueddfa, a'r amseriad. Yr oedd yr amseriad yn anodd iawn, iawn ac yn anffodus.

[74] Janet Davies: Trown yn awr at y taliad iawndal i Tim Arnold. Alun Cairns, a hoffech ofyn rhai cwestiynau?

[75] Alun Cairns: **Thank you, madam Chair. Ms Southall, I would like to ask you questions and then I will look to Mr Ford for him to respond to your answer. We have discussed the £30,000 figure that was negotiated upon on a number of occasions this morning, can you highlight to me how that figure was decided upon?**

Ms Southall: **I can give you my understanding of how it was decided upon. The first thing is that Mr Arnold would be entitled, under the compromise agreement, to three months' salary. That would have been some £15,000 to him, with on costs obviously to the museum. I believe that the remainder—the other £15,000 to him as it were—was decided on because it was a figure that was acceptable to him but was less than the costs of the disciplinary route.**

[76] Alun Cairns: **Would you like to respond, Mr Ford?**

Mr Ford: **I think that the only rider I would give to that very correct answer is that it was less than Mr Arnold and his solicitor originally asked for.**

[75] Alun Cairns: **Diolch, fadam Cadeirydd. Ms Southall, hoffwn ofyn cwestiynau ichi ac yna byddaf yn disgwyl i Mr Ford ymateb i'ch ateb. Yr ydym wedi trafod y ffigur a negodwyd sef £30,000 ar sawl achlysur y bore yma, a allwch chi esbonio imi sut y penderfynwyd ar y ffigur hwnnw?**

Ms Southall: **Gallaf esbonio i chi sut y penderfynwyd arno, yn ôl a ddeallaf. Y peth cyntaf yw y byddai gan Mr Arnold hawl, o dan y cytundeb cyfaddawd, i dri mis o gyflog. Byddai hynny tua £15,000 iddo ef, ynghyd â chostau ychwnaegol wrth reswm i'r amgueddfa. Credaf y penderfynwyd ar y gweddill—y £15,000 arall iddo fel petai—gan ei fod yn ffigur a oedd yn dderbyniol iddo ond a oedd yn llai na chostau'r llwybr disgyblu.**

[76] Alun Cairns: **A hoffech ymateb, Mr Ford?**

Mr Ford: **Credaf mai'r unig ategiad yr hoffwn ei wneud i'r ateb cywir iawn hwnnw yw ei fod yn llai na'r hyn y gofynnodd Mr Arnold a'i gyfreithiwr amdano'n wreiddiol.**

[77] Alun Cairns: **I want to come on to that. You have both mentioned the six-month period that the disciplinary action would be likely to take. On what basis did you estimate that it would take six months?**

Ms Southall: **My understanding is that this was an estimate given to Mr Ford by both the head of human resources and by the solicitors who were advising in this case.**

[78] Alun Cairns: **Mr Ford?**

Mr Ford: **Yes, indeed, and complicated as I said, very early on, by the fact that the director—the responsible person—was going to change in the middle of the process. That was likely to string it out and make it longer rather than shorter.**

[79] Alun Cairns: **If that is the case, is it fair to say that Mr Arnold found himself in a particularly strong negotiating position as a result of the disciplinary procedure and as a result of the lack of discipline that was introduced very early on? So he was in a very strong negotiating position and that he, effectively, could name his price?**

[77] Alun Cairns: **Hoffwn ddilyn trywydd hynny. Mae'r ddau ohonoch wedi crybwyll y cyfnod o chwe mis y byddai'r camau disgyblu yn debygol o'i gymryd. Ar ba sail y gwnaethoch amcangyfrif y byddai'n cymryd chwe mis?**

Ms Southall: **Fy nealltwriaeth i yw mai dyma'r amcangyfrif a roddwyd i Mr Ford gan y pennaeth adnoddau dynol a chan y cyfreithwyr a oedd yn rhoi cyngor yn yr achos hwn.**

[78] Alun Cairns: **Mr Ford?**

Mr Ford: **Ie, yn wir, a chymhlethwyd hyn fel y dywedais, yn llawer cynharach, gan y ffaith y byddai'r cyfarwyddwr—y person cyfrifol—yn newid ynghanol y broses. Yr oedd hyn yn debygol o'i hymestyn a'i gwneud yn hwy yn hytrach na'i byrhau.**

[79] Alun Cairns: **Os felly, a yw'n deg dweud bod Mr Arnold mewn sefyllfa negodi arbennig o gryf o ganlyniad i'r weithrefn ddisgyblu ac o ganlyniad i'r diffyg disgyblaeth a fu yn llawer cynharach? Felly yr oedd mewn sefyllfa negodi gref iawn a gallai, mewn gwirionedd, ddweud faint oedd ei bris?**

Mr Ford: He named a price, which he did not get. I can tell you that the internal view of those people who know in the museum and Council, and of our solicitor, is that we spent a lot less on settling this than anyone could have predicted at the beginning of it. There is an element in which our position is slightly weak because of the timing and the long history. I have admitted that. However, in the end, that did not influence the payment. We managed to settle at a rather lower cost than we had feared.

[80] Alun Cairns: Following on from that, Mr Ford, was Mr Arnold holding the museum to ransom?

Mr Ford: Certainly not, because if he had not accepted the figure, which after all comes out of his proposal originally, and not ours, that this was the way to go—it was not our idea that he should leave—he would have gone through the disciplinary process. I was myself convinced that the allegations were true and strong and that he would, in the end, have lost the case. However, we never got that far. He did not have us over a barrel, being held to ransom. The museum had one weakness in its case—two, perhaps,

Mr Ford: Dywedodd faint oedd ei bris, ond nis cafodd. Gallaf ddweud wrthy ch mai barn fewnol y bobl hynny sydd yn gwybod yn yr amgueddfa a'r Cyngor, a'n cyfreithiwr, yw ein bod wedi gwario llawer llai ar setlo hyn nag y gallai unrhyw un fod wedi'i ragweld ar y dechrau. Mae elfen lle mae ein sefyllfa ychydig yn wan oherwydd yr amseru a'r hanes hir. Yr wyf wedi cyfaddef hynny. Fodd bynnag, yn y pen draw, ni ddylanwadodd hynny ar y taliad. Llwyddasom i setlo ar bris ychydig yn is nag yr oeddem wedi'i ofni.

[80] Alun Cairns: Gan ddilyn ymlaen o hynny, Mr Ford, a oedd Mr Arnold yn dal yr amgueddfa yn wystl?

Mr Ford: Nac oedd, yn sicr, oherwydd oni fuasai wedi derbyn y ffigur, sydd wedi'r cyfan yn deillio o'i gynnig ef yn wreiddiol, ac nid ein cynnig ni, mai dyna oedd y ffordd i'w dilyn—nid ein syniad ni oedd y dylai adael—byddai wedi mynd drwy'r broses ddisgyblu. Yr oeddwn i fy hun yn argyhoeddedig fod yr honiadau'n wir ac yn gryf ac y byddai, yn y pen draw, wedi colli'r achos. Fodd bynnag, nid aethom mor bell â hynny erioed. Nid oeddem ar ei drugaredd, yn cael ein dal yn wystl. Un gwendid oedd yn achos yr

because of the fact that I was about to retire—but otherwise we, in fact, pretty well held all the cards.

amgueddfa—dau, efallai, oherwydd y ffaith fy mod ar fin ymddeol—ond fel arall, a dweud y gwir, ni oedd â'r llaw uchaf.

[81] Alun Cairns: If you were convinced that the allegations made would be upheld against him, how can you say that when, earlier on, you indicated that you were wholly unaware of the alleged misconduct throughout previous years?

[81] Alun Cairns: Os oeddech yn argyhoeddedig y byddai'r honiadau a wnaethpwyd yn cael eu cadarnhau yn ei erbyn, sut y gallwch ddweud hynny wedi ichi nodi'n gynharach nad oeddech yn ymwybodol o gwbl o'r camymddwyn honedig drwy gydol y blynyddoedd blaenorol?

Mr Ford: That is what I had been aware of, but I was aware by the time these meetings were being held, and there were, and I assume still are, very strong pieces of documentary evidence—depositions of staff who had left and so on.

Mr Ford: Dyna'r hyn yr oeddwn wedi bod yn ymwybodol ohono, ond yr oeddwn yn ymwybodol erbyn i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal, ac yr oedd, ac y mae o hyd, ddarnau cryf iawn o dystiolaeth ddogfennol—tystiolaeth staff a oedd wedi gadael ac ati.

[82] Alun Cairns: You mentioned that it was not the figure that Mr Arnold asked for—that that was not his starting point—so did the museum establish an upper negotiating limit and, if so, what was it?

[82] Alun Cairns: Crybwyllasoch nad dyna'r ffigur y gofynnodd Mr Arnold amdano—nad hynny oedd ei fan cychwyn—felly a bennodd yr amgueddfa uchafswm negodi ac, os felly, beth ydoedd?

Mr Ford: I do not think that we ever got to that stage. I have in my head somewhere, but I have not gone back to the documents and I am not even

Mr Ford: Nid wyf yn credu inni erioed gyrraedd y cam hwnnw. Rhywle yn fy mhen, ond nid wyf wedi dychwelyd at y dogfennau ac nid wyf yn siwr hyd yn

sure if I should be quoting it, but I have in my head that we might somewhere have discussed that maybe it would cost us £50,000. However, it is purely recollection, so I probably ought not to even have said it. We certainly did not set any upper limit. There were no ground rules at that stage. It did not last long enough for there to need to be ground rules.

[83] Alun Cairns: Using the figure of £50,000—and you have previously given an answer that it was cheaper, in effect, to come to this compromise agreement with a payment of £30,000 because that was equivalent to six months' salary and it would take six months to run through the standard disciplinary procedure—it is fair to say that you were prepared to go to a figure of an additional £20,000 for the sake of convenience?

Mr Ford: I think that 'convenience' is rather a slight word to wrap up a lot of rather serious problems. It was not about convenience, it was about actually effective, efficient management of the museum at a time when it was already—as all institutions do—about to undergo quite serious change with the end of one directorship and the beginning of another.

oed a ddylwn ei ddyfynnu, ond yn fy mhen tybiaf hwyrach ein bod wedi trafod rhywbryd y gallai gostio £50,000 inni. Fodd bynnag, atgof yn unig yw hwnnw, felly yn ôl pob tebyg ni ddylwn fod wedi dweud hynny hyd yn oed. Yn sicr ni phennwyd uchafswm gennym. Nid oedd unrhyw reolau sefydlog bryd hynny. Ni pharhaodd yn ddigon hir fel bod angen rheolau sefydlog.

[83] Alun Cairns: Gan ddefnyddio'r ffigur o £50,000—ac yr ydych eisoes wedi rhoi ateb ei bod yn rhatach, mewn gwirionedd, dod i'r cytundeb cyfaddawd hwn gyda thaliad o £30,000 gan fod hynny'n cyfateb i chwe mis o gyflog a byddai'n cymryd chwe mis i fynd drwy'r weithdrefn ddisgyblu safonol—a yw'n deg dweud eich bod yn barod i gynnig ffigur oedd £20,000 yn ychwaneg er hwylustod?

Mr Ford: Credaf fod 'hwylustod' yn air eithaf diniwed i ddisgrifio llawer o broblemau eithaf difrifol. Nid oedd yn ymwneud â hwylustod, yr oedd yn ymwneud mewn gwirionedd â rheoli'r amgueddfa yn effeithiol ac yn effeithlon ar adeg pan oedd ar drothwy—fel yn achos pob sefydliad—cryn dipyn o newid gyda diwedd un gyfarwyddiaeth a dechrau un arall.

[84] Alun Cairns: So that additional £20,000 was seen to be—or could have been—effective and efficient management, as the £30,000—

[84] Alun Cairns: Felly ystyriwyd bod yr £20,000 ychwanegol hwnnw—neu y gallasai fod—yn rheolaeth effeithiol ac effeithlon, gan fod y £30,000—

Mr Ford: Forgive me, I think that the £20,000 is irrelevant. It never happened. I have said that I am not even quite sure whether it ever became a figure in discussion with anybody apart from what I had in my head, but I do not remember that.

Mr Ford: Maddeuwch i mi, credaf fod yr £20,000 yn amherthnasol. Ni ddigwyddodd hynny. Yr wyf wedi dweud nad wyf hyd yn oed yn siwr iawn a ddaeth yn ffigur a drafodwyd gydag unrhyw un erioed ac eithrio'r hyn a oedd gennyf yn fy mhen, ond nid wyf yn cofio hynny.

[85] Alun Cairns: The £30,000—is it purely coincidental that that sum of money is the maximum amount of money allowed before tax would have been chargeable?

[85] Alun Cairns: Y £30,000—a yw'n gyd-ddigwyddiad llwyr mai'r swm hwnnw o arian yw'r uchafswm a ganiateir cyn y byddai'n rhaid codi treth?

Mr Ford: I did not know that.

Mr Ford: Ni wyddwn hynny.

[86] Alun Cairns: Would that have not been raised by the legal advice and by the advice that you—

[86] Alun Cairns: Oni fyddai hynny wedi cael ei godi gan y cyngor cyfreithiol a'r cyngor a—

Mr Ford: It is possible. As I say, the two solicitors were the two people who drew up the document. I, of course, had to approve it, and it was sent to me for approval, but I do not believe that there is anything in that document about whether it is taxable or not, and

Mr Ford: Mae'n bosibl. Fel y dywedais, y ddau gyfreithiwr oedd y ddau berson a luniodd y ddogfen. Yr oedd yn rhaid imi, wrth gwrs, ei chymeradwyo, ac fe'i hanfonwyd ataf i'w chymeradwyo, ond nid wyf yn credu bod unrhyw beth yn y ddogfen honno ynglyn ag a yw'n

it is not something which I went into.

drethadwy ai peidio, ac nid yw'n rhywbeth yr ymchwiliais iddo.

[87] Alun Cairns: If I can say, I would find that quite strange because I would expect that that is a standard practice whereby people understand—anyone in a responsible employing position—that £30,000 is tax free in any sort of termination arrangement.

[87] Alun Cairns: Os gallaf ddweud, byddwn yn tybio bod hynny'n eithaf rhyfedd gan y byddwn yn disgwyl i hynny fod yn arfer safonol lle mae pobl yn deall—unrhyw un mewn sefyllfa gyflogi gyfrifol—bod £30,000 yn ddi-dreth mewn unrhyw fath o gytundeb terfynu.

Mr Ford: I have not been involved with termination arrangements and I am sorry that you find it strange to believe, but I did not know.

Mr Ford: Nid wyf wedi bod yn ymwneud â'r trefniadau terfynu ac mae'n ddrwg gennyf eich bod yn ei chael yn rhyfedd credu, ond nis gwyddwn.

[88] Alun Cairns: How close was Mr Arnold to retirement at that time?

[88] Alun Cairns: Pa mor agos oedd Mr Arnold i oed ymddeol bryd hynny?

Mr Ford: I am not sure. I would have to seek somebody's advice.

Mr Ford: Nid wyf yn siwr. Byddai'n rhaid imi ofyn cyngor rhywun.

Ms Southall: I think that he was under 50.

Ms Southall: Credaf ei fod o dan 50.

Mr Ford: I was about to say that he was in his early 50s, but he is under 50, so at least 10 years, possibly more.

Mr Ford: Yr oeddwn ar fin dweud ei fod yn ei 50au cynnar, ond mae o dan 50, felly o leiaf 10 mlynedd, mwy o bosibl.

[89] Alun Cairns: Thank you for that. Ms Southall, on what grounds did the museum decide to pay Mr Arnold's legal costs?

[89] Alun Cairns: Diolch am hynny. Ms Southall, ar ba sail y penderfynodd yr amgueddfa dalu costau cyfreithiol Mr Arnold?

Ms Southall: **I believe that that was an early part of the agreement with Mr Arnold.**

Ms Southall: **Credaf fod hynny yn rhan gynnar o'r cytundeb gyda Mr Arnold.**

[90] Alun Cairns: **Mr Ford, would you like to expand on that?**

[90] Alun Cairns: **Mr Ford, a hoffech ymhelaethu ar hynny?**

Mr Ford: **Yes, it was part of the agreement as it was put to me and I thought that it was a reasonable thing to do.**

Mr Ford: **Hoffwn, yr oedd yn rhan o'r cytundeb fel y'i cyflwynwyd imi ac yr oeddwn o'r farn mai dyna oedd y peth rhesymol i'w wneud.**

[91] Alun Cairns: **So, in addition to the £30,000 that was—**

[91] Alun Cairns: **Felly, yn ychwanegol at y £30,000 a oedd—**

Mr Ford: **It was actually £31,470.**

Mr Ford: **Yr oedd yn £31,470 a dweud y gwir.**

[92] Alun Cairns: **In addition to the £30,000, then, there were legal expenses on top, and that was again considered to be good value for money when there were serious allegations against Mr Arnold.**

[92] Alun Cairns: **Yn ogystal â'r £30,000, felly, yr oedd costau cyfreithiol yn ychwanegol, ac eto ystyriwyd bod hynny'n werth da am arian pan oedd honiadau difrifol yn erbyn Mr Arnold.**

Mr Ford: **It is still significantly cheaper than any other option that was offered to us.**

Mr Ford: **Mae'n parhau i fod yn sylweddol rhatach nag unrhyw opsiwn arall a gynigwyd inni.**

[93] Alun Pugh: **Just one quick supplementary on that. Given the nature of the serious allegations and given the fact that this is all well documented and people were entirely**

[93] Alun Pugh: **Dim ond un cwestiwn cyflym arall am hynny. O gofio natur yr honiadau difrifol ac o gofio'r ffaith bod hyn oll wedi'i ddogfennu'n dda a bod pobl yn hollol fodlon ar gofnodi**

happy to be on the record about this, was it ever discussed that you could say: ‘given these allegations, you are dismissed instantly for gross misconduct. We have here a file, we will see you in court, or see you in an industrial tribunal’?

Mr Ford: That is what I asked your colleague earlier, whether that was a serious proposal, and we then abandoned the disciplinary process altogether. I think that we would have had some difficulties. The advice that I was given was that it was not the right thing to do.

[94] Alun Pugh: Whose advice was it that it was not the right thing to do?

Mr Ford: Our employment lawyer.

[95] Alun Cairns: I have one other supplementary question. What sort of message would you say that this negotiated agreement between the museum and Mr Arnold sends to existing employees of the museum?

Mr Ford: I would like Ms Southall to try to answer that because Ms Southall runs the museum now and knows what—

hyn yn swyddogol, a drafodwyd o gwbl y posibilrwydd y gallech ddweud: ‘o goffio’r honiadau hyn, fe’ch diswyddir ar unwaith am gamymddygiad difrifol. Mae gennym yma ffeil, fe’ch gwelwn yn y llys, neu fe’ch gwelwn mewn tribiwnlys diwydiannol’?

Mr Ford: Dyna’r hyn a ofynnais i’ch cydweithiwr yn gynharach, p’un a oedd hynny’n gynnig difrifol, ac yna rhoddwyd y gorau i’r broses ddisgyblu yn gyfan gwbl. Credaf y byddem wedi cael rhai anawsterau. Y cyngor a gefais oedd nad dyna oedd y peth cywir i’w wneud.

[94] Alun Pugh: Cyngor pwy oedd nad dyna’r peth cywir i’w wneud?

Mr Ford: Ein cyfreithiwr cyflogaeth.

[95] Alun Cairns: Mae gennyf un cwestiwn arall i’w ychwanegu. Pa neges y mae’r cytundeb hwn a negodwyd rhwng yr amgueddfa a Mr Arnold yn ei gyfleu i weithwyr presennol yr amgueddfa, yn eich barn chi?

Mr Ford: Hoffwn i Ms Southall geisio ateb hynny gan mai Ms Southall sydd yn rhedeg yr amgueddfa yn awr a hi sydd yn gwybod beth—

[96] Alun Cairns: Yes, I would like her to respond first.

[96] Alun Cairns: Ie, hoffwn iddi hi ymateb yn gyntaf.

Ms Southall: I think that I would accept that it potentially does not send a very good message. Potentially, it sends the message that you can get away with bad behaviour. However, there were circumstances in this case, which, when I read the reports, I believe that the people involved acted in good faith. However, I would accept that, yes, it is not an appropriate message for staff to be given

Ms Southall: Credaf y byddwn yn derbyn nad yw o bosibl yn cyfleu neges dda iawn. Gallai gyfleu'r neges y gallwch osgoi cosb ar ôl ymddwyn yn wael. Fodd bynnag, yr oedd amgylchiadau yn yr achos hwn, lle, pan ddarlennaf yr adroddiadau, y credaf fod y bobl dan sylw wedi gweithredu mewn ewyllys da. Fodd bynnag, byddwn yn derbyn nad yw'n neges briodol i'w rhoi i'r staff.

[97] Alun Cairns: Mr Ford, was that taken into consideration at the time?

[97] Alun Cairns: Mr Ford, a ystyriwyd hynny ar y pryd?

Mr Ford: No, because we told the staff that Mr Arnold had considered his career and decided to resign. We did not tell them that we had agreed on any contract or that we had made any arrangement with him. That has only emerged as a result of this investigation.

Mr Ford: Naddo, oherwydd inni ddweud wrth y staff bod Mr Arnold wedi ystyried ei yrfa a'i fod wedi penderfynu ymddiswyddo. Ni ddywedasom wrthynt ein bod wedi cytuno ar unrhyw gontract nac ein bod wedi gwneud unrhyw drefniant gydag ef. Dim ond o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn y daeth hynny i'r amlwg.

[98] Alun Cairns: In previous discussions, you have highlighted rumours and the circumstances that existed in the museum at the time and I wonder whether the museum's staff

[98] Alun Cairns: Mewn trafodaethau blaenorol, yr ydych wedi sôn am sibrydion a'r amgylchiadau a oedd yn bodoli yn yr amgueddfa ar y pryd a thybiaf a oedd staff yr amgueddfa yn

genuinely believed that was the reason for his departure. Bearing that in mind, would you like to reconsider your answer?

Mr Ford: Somebody has already referred to it being a leaky ship. If information were given to all staff—as I said at the time—then I thought it would get outside the museum. The number of staff who were party to what was going on could be counted on the fingers of one hand and I do not believe for an instant that any of those people would have leaked what we were doing.

[99] Alun Cairns: In retrospect and with the benefit of hindsight, what message do you think that public sector employees in similar positions have now received as a result of this investigation?

Mr Ford: I do not know that message they have received a message other than that Mr Arnold had left the museum with some questions about his career at the museum.

[100] Alun Cairns: And nothing in relation to the possible payments that any of them could receive for any alleged misconduct in the future?

credu'n wir mai dyna oedd y rheswm dros ei ymadawiad. O gadw hynny mewn cof, a hoffech ailystyried eich ateb?

Mr Ford: Mae rhywun eisoes wedi cyfeirio at yr amgueddfa fel sefydliad tafodrydd. Pe rhoddwyd y wybodaeth i'r holl staff—fel y dywedais ar y pryd—yna yr oeddwn o'r farn y byddai'n mynd y tu allan i'r amgueddfa. Gellid cyfrif ar fysedd un llaw faint o staff a oedd yn gwybod am yr hyn a oedd yn digwydd ac nid wyf yn credu am eiliad y byddai unrhyw un o'r bobl hynny wedi datgelu'r hyn yr oeddem yn ei wneud.

[99] Alun Cairns: O edrych yn ôl ac wedi'r holl ddigwyddiadau, pa neges a gyflewyd i weithwyr yn y sector cyhoeddus sydd mewn sefyllfa debyg o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, yn eich barn chi?

Mr Ford: Ni wn iddynt gael neges oni bai am y ffaith i Mr Arnold adael yr amgueddfa a bod rhai cwestiynau ynglyn â'i yrfa yn yr amgueddfa.

[100] Alun Cairns: A dim mewn perthynas â'r taliadau posibl y gallai unrhyw un ohonynt eu derbyn am gamyddwyn honedig yn y dyfodol?

Mr Ford: I do not think that we paid anyone for their misconduct. We paid them less than they might have received through any other route.

Mr Ford: Nid wyf yn credu inni dalu unrhyw un am eu camymddygiad. Talasom lai iddynt nag y gallent fod wedi'i dderbyn drwy unrhyw lwybr arall.

[101] Christine Chapman: You mentioned your staff. Given that the case is finished, have you been in a position to discuss this with the rest of the staff to see if there could be any possible future repercussions?

[101] Christine Chapman: Soniasoch am eich staff. O gofio fod yr achos ar ben, a ydych wedi bod mewn sefyllfa i drafod hyn gyda gweddill y staff er mwyn canfod a allai fod unrhyw sgîl-ffeithiau yn y dyfodol?

Ms Southall: I assume that that question is for me and not for Mr Ford?

Ms Southall: Tybiaf i'r cwestiwn hwnnw gael ei gyfeirio ataf i ac nid at Mr Ford?

[102] Christine Chapman: Yes.

[102] Christine Chapman: Ie.

Ms Southall: One of the things that is quite striking is how little interest the staff have expressed in the mechanics of the business, but we have discussed it at a senior management level and I have made clear to them the lessons that I personally have learnt from this case. There are lessons to be learnt from this specific case but there are also much broader lessons and those are the lessons that I think that we are all pleased to learn. That is one benefit or good outcome of a very unfortunate incident.

Ms Southall: Un o'r pethau sydd yn eithaf trawiadol yw cyn lleied o ddiddordeb y mae'r staff wedi'i fynegi ym mecanwaith y busnes, ond yr ydym wedi'i drafod ar lefel yr uwch reolwyr ac yr wyf wedi'i gwneud yn amlwg iddynt y gwersi yr wyf yn bersonol wedi'u dysgu yn sgîl yr achos hwn. Mae gwersi i'w dysgu o'r achos penodol hwn ond mae gwersi llawer ehangach hefyd a'r rheini yw'r gwersi yr ydym oll yn awddus i'w dysgu, yn fy marn i. Dyna un fantais neu ganlyniad da sydd wedi deillio o ddigwyddiad

anffodus iawn.

[103] Janet Davies: We will now move to the confidentiality clause and the employer's reference. Peter Black will ask some questions on that.

[103] Janet Davies: Symudwn yn awr at y cymal cyfrinachedd a geirda'r cyflogwr. Bydd Peter Black yn gofyn rhai cwestiynau am hynny.

[104] Peter Black: This question is to Ms Southall. Bullet point 4 of paragraph 12 of the report states that the agreement included a confidentiality clause binding on Mr Arnold. Why was such a confidentiality clause deemed necessary?

[104] Peter Black: Cyfeiriaf y cwestiwn hwn at Ms Southall. Noda pwynt bwled 4 paragraff 12 o'r adroddiad fod y cytundeb wedi cynnwys cymal cyfrinachedd yn rhwymo Mr Arnold. Pam y tybiwyd bod cymal cyfrinachedd o'r fath yn angenrheidiol?

Ms Southall: My understanding is that, at the time, this was a standard clause in compromise agreements of this sort in the private sector. My understanding also is that Mr Ford was not aware at that time—he is now, because we have discussed it—but he was not aware at that time of the view that confidentiality clauses are inappropriate in the public sector. So my understanding is that he saw no reason to suggest that this clause—which was standard, this agreement predates the Public Interest Disclosure Act 1998—should be deleted.

Ms Southall: Yn ôl fy nealltwriaeth i, ar y pryd, yr oedd hwn yn gymal safonol mewn cytundebau cyfaddawd o'r math hwn yn y sector preifat. Yr wyf hefyd ar ddeall nad oedd Mr Ford yn ymwybodol ar y pryd—mae bellach yn ymwybodol o hyn, gan ein bod wedi'i drafod—ond nid oedd yn ymwybodol ar y pryd bod cymalau cyfrinachedd yn amhriodol yn y sector cyhoeddus. Felly, fy nealltwriaeth i yw na welodd unrhyw reswm dros awgrymu y dylai'r cymal hwn—a oedd yn safonol, mae hyn yn rhagddyddio Deddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd 1998—gael ei ddileu.

[105] Peter Black: You stated earlier that when you took legal advice from your solicitors, it was incumbent on the museum to brief the solicitors on the normal practice in the public sector. As a result of that briefing, would not the solicitors be aware that such a confidentiality clause was not standard in the public sector, and should not they, therefore, have advised the museum that that was the case?

Ms Southall: The problem was that Mr Ford was not aware that this form of confidentiality clause was—in the wake of a very high profile case—considered to be inappropriate in the public sector and therefore, he was not in a position to advise the solicitors on that.

[106] Peter Black: Do you not think that it would have been incumbent on the solicitors to familiarise themselves fully with all the normal procedures of a public sector organisation and maybe look at the documents and the terms of agreement outside of Mr Ford's briefing?

Ms Southall: I think this point was raised by one of your colleagues. I gave a personal reaction. Obviously, one of the very first things I am going to do

[105] Peter Black: Nodasoch yn gynharach pan gymerasoch gyngor cyfreithiol gan eich cyfreithwyr, ei bod yn ddyletswydd ar yr amgueddfa i roi briff i'r cyfreithwyr ar yr arfer cyffredin yn y sector cyhoeddus. O ganlyniad i'r briff hwnnw, oni fyddai'r cyfreithwyr yn ymwybodol nad oedd cymal cyfrinachedd o'r fath yn safonol yn y sector cyhoeddus, ac oni ddylent, felly, fod wedi cynghori'r amgueddfa i'r perwyl hwnnw?

Ms Southall: Y broblem oedd nad oedd Mr Ford yn ymwybodol yr ystyriwyd y math hwn o gymal cyfrinachedd—yng ngoleuni achos ag iddo broffil uchel iawn—yn amhriodol yn y sector cyhoeddus ac felly, nad oedd mewn sefyllfa i roi cyngor i'r cyfreithwyr ar hynny.

[106] Peter Black: Onid ydych yn credu y byddai'n ddyletswydd ar y cyfreithwyr i ymgyswrtu'n llawn â holl weithdrefnau arferol sefydliad yn y sector cyhoeddus ac o bosibl edrych ar y dogfennau a themau'r cytundeb y tu allan i gylch gorchwyl Mr Ford?

Ms Southall: Credaf i'r pwynt hwn gael ei godi gan un o'ch cydweithwyr. Rhoddais ymateb personol. Yn amlwg, un o'r pethau cyntaf y byddaf yn ei

when I leave this hearing is consult my colleagues in the Assembly office as to whether or not my understanding of what my responsibilities might be in such a case is correct. I will have to say, at this stage, before I seek their advice, that I do not know the answer to that question.

[107] Peter Black: Perhaps Mr Shortridge would like to comment on that particular aspect?

Mr Shortridge: I would expect an external firm of lawyers to be addressing the compliance issues within which its client was operating.

[108] Peter Black: Bullet point 5 of paragraph 12 states that the wording of the employer's reference for Mr Arnold, makes no reference to the reason for his departure. According to paragraph 15, you have been made aware of the issues raised in relation to Mr Arnold's management style. On what basis did you, therefore, agree to the wording used?

Ms Southall: The reference was drafted and was a reference that Mr Arnold sought that the museum would give. I changed it. There were definitely

wneud pan fyddaf yn gadael y gwrandawriad hwn fydd ymgynghori â'm cydweithwyr yn swyddfa'r Cynulliad ynglyn ag a yw fy nealltwriaeth o'm cyfrifoldebau mewn sefyllfa o'r fath yn gywir. Rhaid imi ddweud, ar hyn o bryd, cyn imi geisio eu cyngor, na wn yr ateb i'r cwestiwn hwnnw.

[107] Peter Black: Efallai y byddai Mr Shortridge yn hoffi gwneud sylw ar yr agwedd benodol honno?

Mr Shortridge: Byddwn yn disgwyl i gwmni o gyfreithwyr allanol ymdrin â'r materion cydymffurfio yr oedd ei glient yn gweithredu o'u mewn.

[108] Peter Black: Noda pwynt bwled 5 paragraff 12 nad yw geiriad geirda'r cyflogwr ar gyfer Mr Arnold yn cyfeirio o gwbl at y rheswm dros ei ymadawiad. Yn ôl paragraff 15, rhoddwyd gwybod i chi am y materion a godwyd mewn perthynas â dull rheoli Mr Arnold. Ar ba sail, felly, y cytunasoch ar y geiriad a ddefnyddiwyd?

Ms Southall: Drafftwyd y geirda ac yr oedd yn eirida yr oedd Mr Arnold wedi gofyn i'r amgueddfa ei roi. Fe'i newidiais. Yn sicr yr oedd pethau

things in it that I did not feel, in all honesty, that I could say. With the wisdom of hindsight, I wish that I had sought guidance from the Assembly on this issue but at the time what I was trying to do was to establish a totally neutral reference. The reference therefore documented in three paragraphs what Mr Arnold had done over 14 years for the museum. In the final paragraph, I think that the nearest I got to any warmth was to express the view that he had the capability to make a contribution to the running of an organisation. I tried to keep a very, very neutral tone. As I said, I think that I probably should have sought advice at that stage and I certainly would in future.

[109] Peter Black: You are an employer yourself. If you were presented with a reference like that for a potential employee, obviously you would try to read between the lines. In the light of what has come out, would you feel that you would have been misled by that reference?

Ms Southall: Personally, no, because I wrote it with someone like myself in mind. My instinct, whenever I get a reference where the person appears to be extremely good but the reference

ynndo nad oeddwn yn teimlo, a bod yn gwbl onest, y gallwn eu dweud. Ag ôl-ddoethineb, hoffwn pe bawn wedi gofyn am arweiniad gan y Cynulliad ar y mater hwn ond ar y pryd yr oeddwn yn ceisio ysgrifennu geirda hollol amhleidiol. Felly yr oedd y geirda yn nodi mewn tri pharagraff yr hyn yr oedd Mr Arnold wedi'i wneud dros 14 mlynedd ar ran yr amgueddfa. Y paragraff olaf, yn fy marn i, oedd y darn a oedd yn cyfleu unrhyw fath o gynhesrwydd, sef mynegi'r farn bod ganddo'r gallu i wneud cyfraniad tuag at redeg sefydliad. Ceisiais gadw naws amhleidiol tu hwnt. Fel y dywedais, credaf y dylwn fod wedi ceisio cyngor bryd hynny a byddwn yn sicr yn gwneud hynny yn y dyfodol.

[109] Peter Black: Yr ydych yn gyflogwraig eich hun. Pe cyflwynid geirda tebyg i chi ar gyfer darpar weithiwr, yn amlwg byddech yn ceisio darllen rhwng y llinellau. Yng ngoleuni'r hyn a ddaeth i'r amlwg, a fyddech o'r farn y byddech wedi eich camarwain gan y geirda hwnnw?

Ms Southall: Yn bersonol, na fyddwn, oherwydd fe'i hysgrifennais gyda rhywun fel fi fy hun mewn golwg. Fy ngreddf, pryd bynnag y caf eirda lle yr ymddengys bod y person yn dda iawn

does not appear to have any warmth, is to pick up the phone because, very often, over the phone and off the record one gets to the truth. I would certainly have been prepared to talk off the record about what I knew. However, I would have been very careful, because we must not forget that these were allegations, so I could only reflect, I felt, from my own personal experience of having worked with Mr Arnold for a couple of years. I have said that I do regret not seeking advice. My aim, I think, was fine, but I think probably that I would have been much wiser to have sought advice and I may have been advised not to agree to any such reference.

[110] Peter Black: I accept that. Obviously, as you say, these were allegations that were unproven because there was no disciplinary procedure. I think that is the main problem that we have in this instance. However, they were well-documented allegations and Mr Ford has said already that he felt that the museum had a very strong case. The payment of £30,000 was made to Mr Arnold and he came away with a neutral reference which, granted, may not have possessed

ond nad oes unrhyw gynhesrwydd yn y geirda, yw codi'r ffôn oherwydd, yn aml iawn, dros y ffôn ac yn answyddogol gall rhywun ddod yn agosach at y gwir. Byddwn yn sicr wedi bod yn barod i siarad yn answyddogol am yr hyn a wyddwn. Fodd bynnag, byddwn wedi bod yn ofalus iawn, oherwydd na ddylem anghofio mai honiadau oedd y rhain, felly teimlais mai dim ond fy mhrofiad personol o weithio gyda Mr Arnold am flwyddyn neu ddwy y gallwn ei adlewyrchu. Yr wyf wedi dweud ei bod yn edifar gennyf beidio â cheisio cyngor. Yr oedd fy nod, mi gredaf, yn iawn, ond credaf y byddai wedi bod yn llawer doethach ceisio cyngor ac efallai y byddwn wedi cael fy nghynghori i beidio â chytuno ar unrhyw eirida o'r fath.

[110] Peter Black: Yr wyf yn derbyn hynny. Yn amlwg, fel y dywedaso, ni phrofwyd yr honiadau hyn gan nad oedd unrhyw weithdrefn ddisgyblu. Credaf mai dyna'r brif broblem sydd gennym yn yr achos hwn. Fodd bynnag, yr oeddent yn honiadau a ddogfennwyd yn dda ac mae Mr Ford eisoes wedi dweud ei fod o'r farn fod gan yr amgueddfa achos cryf iawn. Gwnaethpwyd y taliad o £30,000 i Mr Arnold a gadawodd gyda geirda amhleidiol nad oedd iddo, yn sicr,

warmth and may well have hinted to a future employer that something was amiss. However, is not the problem that so much of this is not on the record and not in the open and that is why there is so much disquiet about the whole arrangement?

unrhyw gynhesrwydd a gallai fod wedi awgrymu i gyflogwr yn y dyfodol bod rhywbeth ar goll. Fodd bynnag, onid y broblem yw bod cymaint o hyn heb ei gofnodi'n swyddogol a heb fod yn agored a dyna'r rheswm pam bod cymaint o anffodlonrwydd ynghylch yr holl drefniant?

Ms Southall: Yes. An additional factor is that if I had sought advice about the reference before the compromise agreement was signed, we might not be sitting here today. Again, that is with the wisdom of hindsight.

Ms Southall: Ie. Ffactor ychwnaegol yw pe bawn wedi ceisio cyngor ynglyn â'r geirda cyn i'r cytundeb cyfaddawd gael ei lofnodi, ni fyddem yn eistedd yma heddiw o bosibl. Eto, gallaf ddweud hynny wrth edrych yn ôl.

[111] Alun Pugh: On that reference, Ms Southall, did you write it?

[111] Alun Pugh: O ran y geirda hwnnw, Ms Southall, ai chi a'i ysgrifennodd?

Ms Southall: I amended and agreed it. I did not write it.

Ms Southall: Myfi a'i diwygiodd a chytuno arno. Nid myfi a'i hysgrifennodd.

[112] Alun Pugh: So, who bears ultimate responsibility for the particular form of words used?

[112] Alun Pugh: Felly, pwy sydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw am y ffurf benodol o eiriau a ddefnyddiwyd?

Ms Southall: I do, because I agreed it.

Ms Southall: Myfi, gan imi gytuno arni.

[113] Alun Pugh: With whom?

[113] Alun Pugh: Gyda phwy?

Ms Southall: **I presume with Mr Ford. It was sent to me and I was asked whether or not I would allow the reference to be attached to the compromise agreement. I am sorry, I am trying to remember. I did not like the reference that had been written—**

Ms Southall: **Gyda Mr Ford, debygaf. Fe'i hanfonwyd ataf a gofynnwyd i mi a fyddwn yn fodlon caniatáu i'r geirda gael ei atodi i'r cytundeb cyfaddawd. Mae'n ddrwg gennyf, yr wyf yn ceisio cofio. Nid oeddwn yn hoffi'r geirda a ysgrifennwyd—**

[114] Alun Pugh: **Who wrote that one?**

[114] Alun Pugh: **Pwy ysgrifennodd hwnnw?**

Ms Southall: **I imagine that the solicitors wrote it between them but you will have to check those facts with Mr Ford. I amended it and sent it back to the head of human resources because they had sent it to me. Remember that the National Museums and Galleries of Wales operates on a number of different sites and at that time my office was not in Cardiff, so, these things tended to come through the internal mail.**

Ms Southall: **Tybiaf mai'r cyfreithwyr a'i hysgrifennodd ar y cyd ond bydd yn rhaid i chi gadarnhau'r ffeithiau hynny gyda Mr Ford. Fe'i ddiwygiais a'i ddychwelyd at y pennaeth adnoddau dynol gan mai'r adran honno a'i anfonodd ataf. Cofiwch fod Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn gweithredu ar sawl safle gwahanol ac ar y pryd nid oedd fy swyddfa yng Nghaerdydd, felly, yr oedd y pethau hyn yn tueddu i ddod drwy'r post mewnol.**

[115] Alun Pugh: **Did Mr Arnold or his solicitors see the text before it was agreed?**

[115] Alun Pugh: **A welodd Mr Arnold neu ei gyfreithwyr y testun cyn cytuno arno?**

Ms Southall: **His solicitors may have seen it, but I do not know.**

Ms Southall: **Efallai bod ei gyfreithwyr wedi ei weld, ond nis gwn.**

[116] Alun Pugh: If you were being charitable, I think that you would probably call the reference bland. If you were perhaps being less charitable, misleading might be a more appropriate description. Looking at it, I agree entirely that the first two paragraphs are extremely bland, but in the third, the reference states that he was commended for aspects of his work. You would really have to look between the lines to see that perhaps he was awful at other aspects. It states that Mr Arnold set high standards for himself and for those who worked for him. Again, I think that is a misleading statement. Reading between the lines, I do not think that you would see that he set impossible targets and took it out on staff who failed to achieve those targets. I put it to you that this reference, rather than being bland, is actually misleading and that there is a potential of liability if another employer relied on that reference in order to give somebody a job.

Ms Southall: I would certainly accept that and I think that you would be relieved to know that I have never been asked to use the reference and of course I will not, subject to legal advice, use it now. However, I accept that it could be deemed to be

[116] Alun Pugh: Pe baech yn garedig, credaf y byddech fwy na thebyg yn galw'r geirda'n un di-liw. Petaech yn llai caredig efallai, hwyrach y byddai camarweiniol yn ddisgrifiad mwy priodol. O edrych arno, cytunaf yn llwyr fod y ddau baragraff cyntaf yn hynod o ddi-liw, ond yn y trydydd, nodar geirda ei fod wedi'i ganmol am agweddau ar ei waith. Byddai'n rhaid i chi edrych rhwng y llinellau o ddifrif i weld bod agweddau eraill ar ei waith o bosibl yn ofnadwy. Noda i Mr Arnold osod safonau uchel iddo'i hun ac i'r sawl a weithiai iddo. Eto, credaf fod hwn yn ddatganiad camarweiniol. Gan ddarllen rhwng y llinellau, nid wyf yn credu y gallech weld iddo osod targedau amhosibl gan gosbi staff a fethodd â chyflawni'r targedau hynny. Dywedaf wrthy ch fod yr geirda hwn, yn hytrach na bod yn ddi-liw, yn gamarweiniol a bod posibilrwydd o atebolrwydd pe bai cyflogwr arall yn dibynnu ar y geirda hwnnw er mwyn rhoi swydd i rywun.

Ms Southall: Byddwn yn sicr yn derbyn hynny a chredaf y byddwch yn falch o gael gwybod nad oes unrhyw un erioed wedi gofyn imi ddefnyddio'r geirda ac wrth gwrs ni fyddaf, yn dibynnu ar gyngor cyfreithiol, yn ei ddefnyddio bellach. Fodd bynnag, yr wyf yn

misleading but that was not my intention at that time.

derbyn y gellid ei ystyried yn gamarweiniol ond nid dyna oedd fy mwriad ar y pryd.

[Cafwyd egwyl goffi rhwng 10.55 a.m. ac 11.10 a.m.]

[A coffee break was held between 10.55 and 11.10 a.m.]

[117] Janet Davies: Welcome back to the meeting. Leaving the compromise agreement to one side, we want to discuss the failure to apply for approval of the payment. I have a question for Jon Shortridge. The nature of the £30,000 payment is such that your approval was required. The NAO report confirms that no written approval was sought or given at the time. However, it identifies a difference of view as to whether or not your officials were consulted and informed of the proposed payment verbally. Could you tell this Committee the extent to which the Welsh Office knew about the intention to make this payment to Tim Arnold, and whether you authorised it at the time or did your predecessor?

[117] Janet Davies: Croeso yn ôl i'r cyfarfod. Gan roi'r cytundeb cyfaddawd i'r naill ochr, yr ydym am drafod y methiant i wneud cais i gymeradwyo'r taliad. Mae gennyf un cwestiwn i Jon Shortridge. Yr oedd natur y taliad o £30,000 yn golygu bod angen eich cymeradwyaeth. Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cadarnhau na cheisiwyd unrhyw gymeradwyaeth ysgrifenedig ac na chafodd ei rhoi ar y pryd. Fodd bynnag, mae'n nodi gwahaniaeth barn o ran a ymgynghorwyd â'ch swyddogion ac a gawsant eu hysbysu o'r taliad arfaethedig ar lafar. A allech ddweud wrth y Pwyllgor i ba raddau y gwyddai'r Swyddfa Gymreig am y bwriad i wneud y taliad hwn i Tim Arnold, ac a wnaethoch ei awdurdodi ar y pryd neu a wnaeth eich rhagflaenydd?

Mr Shortridge: As the report makes clear, there had clearly been informal discussions between the director and

Mr Shortridge: Fel sydd yn glir yn yr adroddiad, yn amlwg cafwyd trafodaethau anffurfiol rhwng y

officials in the former Welsh Office. We understood that there was a problem that was being looked into. We searched our collective memories and we certainly have no recollection of a particular sum being mentioned. We were not of the view that our approval was being sought for anything. I personally—having looked back at the papers—am disappointed that that happened. As Mr Ford said earlier, if the alarm bells had rung, then we could have helped him through the difficult situation that he was in, where the person in the Museum who he would naturally rely on most, was the one person not available to him. However, we had the impression that this matter was being dealt with in the normal way and did not raise any unusual circumstances.

[118] Janet Davies: So there are no notes of any verbal conversations?

Mr Shortridge: There are no—I think the lawyers call them—‘contemporaneous notes’, but there have been subsequent notes, where people have searched their memories, going back a long way, to try to record their recollections as accurately as they can.

cyfarwyddwr a'r swyddogion yn y Swyddfa Gymreig gynt. Yr oeddem ar ddeall bod problem a oedd yn destun ymchwiliad. Ceisiodd pob un ohonom gofio ac yn sicr, nid oes gennym unrhyw gof o swm penodol yn cael ei grybwyll. Nid oeddem o'r farn fod rhywun yn gofyn am ein cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw beth. Yn bersonol—o edrych yn ôl ar y papurau—yr wyf yn siomedig i hynny ddigwydd. Fel y dywedodd Mr Ford yn gynharach, pe baem wedi cael rhybudd, gallem fod wedi ei helpu drwy'r sefyllfa anodd yr oedd ynddi, sef nad oedd y person yn yr Amgueddfa y byddai wrth reswm yn dibynnu arno fwyaf ar gael iddo. Fodd bynnag, cawsom yr argraff fod y mater hwn yn cael ei drin yn y ffordd arferol ac nad oedd unrhyw amgylchiadau anarferol yn codi.

[118] Janet Davies: Felly nid oes unrhyw nodiadau o unrhyw sgrysiâu llafar?

Mr Shortridge: Nid oes unrhyw ‘nodiadau ar y pryd’—fel y'u gelwir gan gyfreithwyr, mi gredaf—ond cafwyd nodiadau dilynol, lle mae pobl wedi chwilio eu cof, gan fynd ymhell yn ôl, i geisio cofnodi yr hyn y maent yn ei gofio mor gywir ag y gallant.

[119] Janet Davies: You mentioned, Jon, that you feel that perhaps you should have been more alert to possible dangers arising, because there was some conversation about the issue. You received a note on 7 October, which was referred to earlier. It is in paragraph 18. On receiving that note should not someone have been alerted, at least to the fact that there was a problem arising? Do you have anything to say on that point?

Mr Shortridge: My recollection from talking to people was that this was seen as a piece of routine business. Mr Arnold was one of our main contacts with the Museum, so we would need to know that he was no longer in employment. However, I do not think that it raised any particular or new alarm bells. There had been a telephone conversation with Mr Ford—our recollection is that it was around 5 October—and, we think, one other conversation took place, probably in the margins of a meeting back in August. Therefore, when the note came, I think we were expecting it.

[120] Janet Davies: Yes, because the following day things happened quickly. A cheque was requested on 8 October,

[119] Janet Davies: Soniasoch, Jon, ichi deimlo y dylech fod wedi bod yn fwy effro i'r peryglon posibl fyddai'n codi, oherwydd y cafwyd sgwrs am y mater. Cawsoch nodyn ar 7 Hydref, y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Mae ym mharagraff 18. Pan gafwyd y nodyn hwnnw oni ddylai rhywun fod wedi cael ei rybuddio, o leiaf o'r ffaith fod problem yn codi? A oes gennych unrhyw beth i'w ddweud ar y pwynt hwnnw?

Mr Shortridge: Yr hyn a gofiai o siarad â phobl yw yr ystyriwyd hyn fel mater o drefn arferol. Mr Arnold oedd un o'n prif gysylltiadau gyda'r Amgueddfa, felly byddai angen i ni wybod nad oedd yn cael ei gyflogi bellach. Fodd bynnag, nid wyf yn credu iddo godi unrhyw amheumon penodol nac amheumon newydd. Bu sgwrs dros y ffôn gyda Mr Ford—yn ôl yr hyn a gofiwn, oddeutu 5 Hydref—ac, yr ydym yn credu i un sgwrs arall ddigwydd, fwy na thebyg ar ymylon cyfarfod yn ôl ym mis Awst. Felly, pan ddaeth y nodyn, yr wyf yn credu ein bod yn ei ddisgwyl.

[120] Janet Davies: Ie, oherwydd y diwrnod canlynol digwyddodd pethau'n gyflym. Gofynnwyd am siec

two memos were sent back and fore, and Tim Arnold actually received the cheque on 9 October. It seems to have happened very quickly. Is it normal practice, when a request for a cheque is made for a payment of this sort, that it is processed and delivered so very quickly?

Mr Shortridge: I will ask my chief accountant that.

Mr Pavelin: Normally, we take about three days to provide payment to an individual, but if there is absolute dire urgency, then we can make a same day payment. However, it is not our normal practice to make immediate payments like this. The museum operates a different system to the Assembly and it could be well within their capabilities to make an immediate payment. Given the nature of the payment that was being made to conclude arrangements, it does not surprise me that once the deal had been struck, a cheque was handed over to Mr Arnold very quickly.

[121] Janet Davies: But it was not a dire emergency.

Mr Pavelin: I think in the context of striking a deal and coming to an agreement, normally lawyers would

ar 8 Hydref, anfonwyd dau femo yn ôl ac ymlaen, a derbyniodd Tim Arnold y siec ar 9 Hydref. Ymddengys iddo ddigwydd yn gyflym iawn. A yw'n arfer cyffredin, pan wneir cais am siec ar gyfer taliad o'r math hwn, ei fod yn cael ei brosesu a'i gyflwyno mor gyflym?

Mr Shortridge: Gofynnaf hynny i'm prif gyfrifydd.

Mr Pavelin: Fel arfer, yr ydym yn cymryd tua thri diwrnod i ddarparu taliad i unigolyn, ond os oes brys mawr iawn, gallwn wneud y taliad ar yr un diwrnod. Fodd bynnag, nid yw'n arfer cyffredin gwneud taliadau ar unwaith fel hyn. Mae'r amgueddfa yn gweithredu system whanol i'r Cynulliad a gallai fod o fewn eu gallu i wneud taliad ar unwaith. O gofio natur y taliad a oedd yn cael ei wneud er mwyn terfynu trefniadau, nid yw'n syndod i mi, wedi i'r fargen gael ei tharo, i siec gael ei rhoi i Mr Arnold yn gyflym iawn.

[121] Janet Davies: Ond nid oedd yn argyfwng difrifol.

Mr Pavelin: Credaf, yng ngyd-destun taro bargaen a dod i gytundeb, fel arfer byddai cyfreithwyr yn disgwyl i

expect there to be payment—with an agreement of this sort—very quickly.

daliad—gyda chytundeb o'r math hwn—gael ei wneud yn gyflym iawn.

[122] Alison Halford: I have been accused by my colleagues of being a Rottweiler. I am sure that is not true, but if it is I apologise and I will try harder.

[122] Alison Halford: Cefais fy nghyhuddo gan fy nghydweithwyr o fod yn Rottweiler. Yr wyf yn siwr nad yw hynny yn wir, ond os ydyw ymddiheuraf a byddaf yn gwneud mwy o ymdrech.

I have some questions to ask Mr Ford. We are told that as museum director you consulted the museum's personnel committee about the proposed agreement with Tim Arnold. It also states in the NAO's report that you assured the committee, and I quote,

Mae gennyf rai cwestiynau i'w gofyn i Mr Ford. Dywedir wrthym i chi, fel cyfarwyddwr yr amgueddfa, ymgynghori â phwyllgor personél yr amgueddfa ynglyn â'r cytundeb arfaethedig gyda Tim Arnold. Nodir hefyd yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i chi roi sicrwydd i'r pwyllgor, a dyfynnaf,

'that all proper authorisations had been obtained'.

'y derbyniwyd pob awdurdod priodol'.

On what basis did you give this assurance?

Ar ba sail y rhoesoch y sicrwydd hwn?

Mr Ford: It did not go before the personnel committee as such, it went before the chairman of the personnel committee, who had been consulted on the very first day, 24 August, when it all began. I think that is the right date.

Mr Ford: Nid aeth gerbron y pwyllgor personél fel y cyfryw, aeth gerbron cadeirydd y pwyllgor personél, yr ymgynghorwyd ag ef ar y diwrnod cyntaf un, sef 24 Awst, pan ddechreuodd y cyfan. Credaf mai dyna'r dyddiad cywir.

[123] Alison Halford: **From where, then, does this misunderstanding in the documents before us arise—**

Mr Ford: **It does actually say the chairman of the museum's personnel committee, and the president, vice-president and treasurer. Otherwise it talks about officers of the Council and, indeed, they were consulted. I told them that I thought I was doing all the proper things.**

[124] Alison Halford: **What did you tell them?**

Mr Ford: **I told them of the nature of the allegations. They had been part of the whole exercise. I discussed it with them at every conceivable stage. I told them of the difficulties that I described earlier in this meeting about the history. It was at that stage that one of them told me that this was something that had happened a long time ago and that even my predecessor had worried about it. That had not been reported to me. I told them what the two solicitors had agreed in terms of the compromise agreement. I told them of the terms, which included the £30,000. I do not remember this phrase about proper authorisations. I think—if there is one thing in this whole exercise I have said**

[123] Alison Halford: **O ble, felly, y mae'r camddealltwriaeth hwn yn y dogfennau sydd ger ein bron yn codi—**

Mr Ford: **Mewn gwirionedd, mae'n dweud cadeirydd pwyllgor personél yr amgueddfa, a'r llywydd, y dirprwy lywydd a'r trysorydd. Fel arall mae'n sôn am swyddogion y Cyngor ac, yn wir, ymgynghorwyd â hwy. Dywedais wrthynt fy mod yn credu fy mod yn gwneud yr holl bethau cywir.**

[124] Alison Halford: **Beth a ddywedasoch wrthynt?**

Mr Ford: **Dywedais wrthynt am natur yr honiadau. Yr oeddent wedi bod yn rhan o'r ymarfer cyfan. Trafodais ef gyda hwy yn ystod pob cam posibl. Dywedais wrthynt am yr anawsterau a ddisgrifiais yn gynharach yn y cyfarfod hwn ynglyn â'r hanes. Bryd hynny y dywedodd un ohonynt wrthyf fod hyn yn rhywbeth a ddigwyddodd amser maith yn ôl a bod hyd yn oed fy rhagflaenydd wedi pryderu amdano. Nid adroddwyd hynny wrthyf. Dywedais wrthynt am yr hyn y cytunodd y ddau gyfreithiwr arno o ran y cytundeb cyfaddawd. Dywedais wrthynt am y termau, a oedd yn cynnwys y £30,000. Ni chofiaf yr ymadrodd hwn am awdurdodiadau**

so far—that even after this morning’s discussion I am not clear I would change anything that I did at the time. The one thing I would certainly change without any hesitation at all, is make sure that I had not reached a conclusion before I had proper written authority from the Welsh Office. I failed to do that. I failed for various reasons to understand that that was required of me. Therefore, I do not believe for one second that I would have said to any of those people, ‘I have received the proper authorisation’. I was not aware, for good or ill, properly or improperly, I had not taken on board that authorisation was required.

priodol. Credaf—os oes un peth yn yr ymarfer hwn yr wyf wedi’i ddweud hyd yma—hyd yn oed ar ôl trafodaeth y bore yma nad wyf yn glir y byddwn yn newid unrhyw beth a wneuthum ar y pryd. Yr unig beth y byddwn yn sicr yn ei newid heb unrhyw amheuaeth o gwbl, yw sicrhau nad oeddwn wedi dod i gasgliad cyn imi gael awdurdod ysgrifenedig priodol gan y Swyddfa Gymreig. Methais â gwneud hynny. Methais am amryw o resymau â deall yr hyn a ddisgwyliwyd gennyf. Felly, ni chredaf am eiliad y byddwn wedi dweud wrth unrhyw un o’r bobl hynny, ‘Yr wyf wedi fy awdurdodi’n briodol’. Nid oeddwn yn ymwybodol, yn gam neu’n gymwys, er drwg neu er da, nid oeddwn wedi deall bod angen awdurdodiad.

[125] Alison Halford: So, the fact that it says in this financial report before us that you allegedly informed the Welsh Office of this payment is completely inaccurate?

[125] Alison Halford: Felly, mae’r ffaith ei bod yn dweud yn yr adroddiad ariannol ger ein bron yr honnir i chi roi gwybod i’r Swyddfa Gymreig am y taliad hwn yn hollol anghywir?

Mr Ford: No, I certainly informed the Welsh Office. I did not ask for their permission.

Mr Ford: Na, yn sicr fe roddais wybod i’r Swyddfa Gymreig. Ni ofynnais am eu caniatâd.

[126] Alison Halford: Whom did you inform in the Welsh Office?

[126] Alison Halford: Pwy roesoch wybod iddo yn y Swyddfa Gymreig?

Mr Ford: **My opposite number, who is the official in the Welsh Office.**

Mr Ford: **Y swyddog sydd yn cyfateb imi yn y Swyddfa Gymreig.**

[127] Alison Halford: **Are we allowed to give a name?**

[127] Alison Halford: **A ganiateir i ni roi enw?**

Mr Ford: **The gentleman is nodding his head in the corner, Mr Richard Davies.**

Mr Ford: **Mae'r gwr bonheddig yn nodio ei ben yn y gornel, Mr Richard Davies.**

[128] Alison Halford: **And this individual did not tell you that this was a transaction that was bordering on difficulty?**

[128] Alison Halford: **Ac ni ddywedodd yr unigolyn hwn wrthy ch fod hwn yn un o'r trafodion hynny a oedd yn ymylu ar fod yn anodd?**

Mr Ford: **No, he knew of the difficulties. I am slightly surprised to hear Mr Shortridge say that there were only two conversations—at this distance in time I will not argue with that—but there were certainly at least two conversations about the whole difficulty or the prolonged difficulties.**

Mr Ford: **Naddo, fe wyddai am yr anawsterau. Yr wyf yn synnu ychydig i glywed Mr Shortridge yn dweud mai dim ond dwy sgwrs a gafwyd—gan fod cymaint o amser wedi mynd heibio ni wnaif ddadlau ar y pwynt hwnnw—ond yn sicr cafwyd o leiaf ddwy sgwrs am yr anhawster cyfan neu'r anawsterau estynedig.**

[129] Alison Halford: **So you shared the fact that £30,000 of taxpayers' money had been cleared with three members of your committee, and not the whole committee?**

[129] Alison Halford: **Felly rhanasoch y ffaith fod £30,000 y trethdalwyr o arian trethdalwyr wedi ei glirio gan dri aelod o'ch pwyllgor, ac nid y pwyllgr cyfan?**

Mr Ford: **With three officers of Council, in fact four, the president, vice-president, treasurer and chairman of the personnel committee.**

Mr Ford: **Gan dri o swyddogion y Cyngor, pedwar mewn gwirionedd, sef y llywydd, is-lywydd, trysorydd a chadeirydd y pwyllgor personél.**

[130] Alison Halford: **Why then do you need a personnel committee?**

[130] Alison Halford: **Felly pam bod angen pwyllgor personél arnoch?**

Mr Ford: **My employers and the people who make the decisions were the Council of the museum.**

Mr Ford: **Fy nghyflogwyr a'r bobl sydd yn gwneud y penderfyniadau oedd Cyngor yr amgueddfa.**

[131] Alison Halford: **So why do you need a personnel committee?**

[131] Alison Halford: **Felly pam bod angen pwyllgor personél arnoch?**

Mr Ford: **To deal with personnel issues. This had gone higher than the personnel committee, but the chairman was involved from day one.**

Mr Ford: **Er mwyn delio â materion personél. Yr oedd hyn wedi mynd yn uwch na'r pwyllgor personél, ond yr oedd y cadeirydd yn gysylltiedig â'r mater o'r diwrnod cyntaf.**

[132] Alison Halford: **Is this all documented? If we asked for a file on this, could we see one?**

[132] Alison Halford: **A yw hyn oll wedi ei ddogfennu? Pe baem yn gofyn am ffeil ar hyn, a gaem weld un?**

Mr Ford: **Yes.**

Mr Ford: **Caech.**

[133] Alison Halford: **So it is all documented?**

[133] Alison Halford: **Felly mae'r cyfan wedi ei ddogfennu?**

Mr Ford: **Yes.**

Mr Ford: **Do.**

[134] Alison Halford: Ms Southall, as the director, would you like to comment on the conversation that I have just had with the former director?

Ms Southall: Only to say that my understanding is that that is a description of what took place. I believe Mr Ford felt that he was seeking help. I have learnt from this that one needs to ensure that what one says is fully understood and that communication is effective, if you see what I mean. In situations like this, where one is perhaps not clear about the full range of one's delegated authority, seeking clarification in writing is a very useful safeguard.

[135] Alison Halford: At the start of the evidence-taking, it was clearly suggested to the Committee that the outgoing director shared quite a lot of information with the director designate. We never quite know how much, do we?

Ms Southall: I knew, in general terms, what the allegations were, but not in detail. Of course, I know now. I have read the files to which you refer. I knew that the disciplinary route was being pursued. At some point in all of

[134] Alison Halford: Ms Southall, fel y cyfarwyddwr, a hoffech wneud sylw ar y sgwrs yr wyf newydd ei chael gyda'r cyn-gyfarwyddwr?

Ms Southall: Dim ond i ddweud mai fy nealltwriaeth i yw bod hynny'n ddisgrifiad o'r hyn a ddiwyddodd. Credaf i Mr Ford deimlo ei fod yn ceisio cymorth. Yr wyf wedi dysgu o hyn bod angen i rywun sicrhau bod yr hyn a ddywed rhywun yn cael ei ddeall yn llwyr a bod cyfathrebu'n effeithiol, os deallwch. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, pan na fyddwch hwyrach yn glir ynghylch yr ystod lawn o awdurdod dirprwyedig sydd gennych, mae ceisio eglurhad ysgrifenedig yn gam diogelu defnyddiol iawn.

[135] Alison Halford: Ar ddechrau'r sesiwn cymryd tystiolaeth, awgrymwyd yn glir i'r Pwyllgor i'r cyfarwyddwr a oedd ar fin gadael rannu cryn dipyn o wybodaeth gyda'r darpar gyfarwyddwyr. Ni wyddom yn iawn fyth faint yn union, na wyddom?

Ms Southall: Gwyddwn, yn gyffredinol, beth oedd yr honiadau, ond nid yn fanwl. Wrth gwrs, fe wn bellach. Yr wyf wedi darllen y ffeiliau y cyfeiriwch atynt. Gwyddwn fod y broses ddisgyblu yn cael ei dilyn. Ar ryw adeg

this I went on holiday, and, although I normally holiday in Wales, rather unusually this time I went abroad. When I came back, I was told that an alternative route was being followed. I knew that there was a compromise agreement but I did not see it. I obviously knew about the reference that we discussed earlier. Although I was aware that there was a payment, it was not until later that I discovered the amount of that payment. On becoming director, I discovered what the amount of the payment was and had discussions with the head of finance on how we should best disclose that in the accounts. Neither of us believed at the time that there was anything improper about the payment.

[136] Alison Halford: So, in your role of director designate, you had no difficulty in accepting that three senior people were nodding through what is now seen as an irregular payment, rather than put it through the whole personnel committee?

Ms Southall: I do not think that the four members of Council nodded it through. I was aware, partly because I was away on holiday, of quite difficult discussions involving those four members of Council, Mr Ford and Mr

yn ystod hyn oll euthum ar wyliau, ac, er fy mod fel arfer yn treulio fy ngwyliau yng Nghymru, y tro hwn euthum dramor, sydd yn eithaf anarferol i mi. Pan ddychwelais, dywedwyd wrthyf fod llwybr arall yn cael ei ddilyn. Gwyddwn fod cytundeb cyfaddawd ond nis gwelais. Yn amlwg, gwyddwn am y geirda a drafodasom yn gynharach. Er fy mod yn ymwybodol bod taliad, ni ddarganfûm faint oedd y taliad tan yn ddiweddarach. Pan ddeuthum yn gyfarwyddwr, darganfûm faint oedd y taliad a chefais drafodaethau gyda'r pennaeth cyllid ar sut y dylem ddatgelu hynny orau yn y cyfrifon. Nid oedd yr un ohonom yn credu ar y pryd bod unrhyw beth amhriodol ynghylch y taliad.

[136] Alison Halford: Felly, yn eich rôl fel darpar gyfarwyddwr, ni chawsoch anhawster derbyn bod tri o bobl mewn swyddi uwch yn derbyn yr hyn a welir erbyn hyn yn daliad afreolaidd heb ei drafod, yn hytrach na'i roi drwy'r pwyllgor personél cyfan?

Ms Southall: Nid wyf yn credu i'r pedwar aelod o'r Cyngor ei dderbyn heb ei drafod. Yr oeddwn yn ymwybodol, yn rhannol oherwydd fy mod ar wyliau, o drafodaethau eithaf anodd rhwng y pedwar aelod hwnnw

Arnold. I hesitate to correct you but I think 'nodding through' is probably not an accurate description of what happened.

[137] Alison Halford: Will you describe what happened?

Ms Southall: I believe, from their account to me, that they discussed the options at length, including the disciplinary route.

[138] Alison Halford: One quick question for you, Mr Shortridge. It is written in front of me that accounting officers rely on their principal finance officers for advice. Tim Arnold was akin to a principal officer. Do you think that the Assembly can learn from the advice and evidence that we have heard thus far?

Mr Shortridge: There are certainly a number of lessons. One is, I think, that when an accounting officer in a public body is without access to his or her main financial adviser, they ought to look to alternatives. I would always make my financial advice in the Assembly available to them in those circumstances. I have told Anna that

o'r cyngor, Mr Ford a Mr Arnold. Petrusaf cyn eich cywiro ond nid wyf yn credu bod 'derbyn heb ei drafod' yn ddisgrifiad cywir o'r hyn a ddigwyddodd.

[137] Alison Halford: A wnewch chi ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd?

Ms Southall: Credaf, o'u hadroddiad i mi, iddynt drafod yr opsiynau yn helaeth, gan gynnwys y llwybr disgyblu.

[138] Alison Halford: Un cwestiwn cyflym i chi, Mr Shortridge. Mae wedi'i ysgrifennu o'm blaen fod y swyddogion cyfrifo yn dibynnu ar eu prif swyddogion cyllid am gyngor. Yr oedd Tim Arnold yn debyg i brif swyddog. A gredwch chi y gall y Cynulliad ddysgu o'r cyngor a'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed hyd yma?

Mr Shortridge: Yn sicr, mae nifer o wersi i'w dysgu. Un ohonynt, yn fy marn i, yw pan na fydd swyddog cyfrifo mewn corff cyhoeddus yn gallu mynd at ei brif neu ei phrif ymgynghorydd cyllid, dylai edrych am ddewisiadau eraill. Byddwn bob amser yn trefnu bod fy nghyngor ariannol yn y Cynulliad ar gael iddynt o dan yr

during our discussions prior to this hearing. There are other lessons that I can go into now, if you would like. We have actually written to all Assembly sponsored public bodies to draw those lessons to their attention, in the light of this experience.

[139] Alison Halford: Are you content with the fact that a £30,000 cheque, which has already been discussed by the Chair, was dispatched with what others might consider as fairly indecent haste, even to the extent, we understand, that it was delivered in person to the recipient?

Mr Shortridge: That is clearly very unusual. I had not appreciated that.

[140] Alison Halford: There was no counter-signature on it. Is that normal?

Mr Pavelin: It tends to vary from body to body, depending upon the amount of expenditure involved. It is not so much, necessarily, the fact that there is just one signature on the cheque, but the procedures that are in place leading up to the actual drawing of the cheque. I

amgylchiadau hynny. Dywedais hynny wrth Anna yn ystod ein trafodaethau cyn y gwrandawriad hwn. Mae gwersi eraill y gallaf fanylu arnynt yn awr, os hoffech. Yr ydym mewn gwirionedd wedi ysgrifennu at bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i dynnu eu sylw at y gwersi hynny, yng ngoleuni'r profiad hwn.

[139] Alison Halford: A ydych yn fodlon ar y ffaith i sic o £30,000, y mae'r Cadeirydd eisoes wedi'i drafod, gael ei rhyddhau ar yr hyn y gallai eraill ei ystyried yn dipyn o frys gwyllt, hyd yn oed i'r graddau, fel y deallwn, iddi gael ei hanfon yn bersonol at y derbynnnydd?

Mr Shortridge: Mae hynny wrth reswm yn anarferol iawn. Nid oeddwn wedi deall hynny.

[140] Alison Halford: Nid oedd unrhyw wrth-lofnod arni. A yw hynny'n arferol?

Mr Pavelin: Mae'n tueddu i amrywio o gorff i gorff, yn dibynnu ar swm y gwariant dan sylw. Nid yn gymaint, o anghenraid, yw'r ffaith mai dim ond un llofnod sydd ar y sic, ond y gweithdrefnau sydd yn eu lle cyn ysgrifennu'r sic. Yn anffodus, ni wn

am afraid that I do not know the absolute detail of the procedures leading up to the drawing of the cheque. Within the Assembly, for example, we use a facsimile single signature on a cheque, but there are very detailed procedures requiring two or more signatures of relevant officers prior to a cheque being drawn.

[141] Alison Halford: This was a legal transaction, was it not? A buying-off of a member of staff to some extent, to put a very gross slant on it. There are obviously lessons to be learnt.

Mr Pavelin: Most certainly. But it is clear from the evidence that has been given by the director and the previous director that there was much consideration of the whole of this process and that lawyers were involved in reaching agreement on the sum that was to be paid.

[142] Alison Halford: My final question is to you, Mr Ford. You saved taxpayers money, but the press that has followed has done very little to the integrity of the museum. Would you agree?

Mr Ford: I have not seen the press that has followed.

union fanylion y gweithdrefnau a arweiniodd at ysgrifennu'r siec. Yn y Cynulliad, er enghraifft, yr ydym yn defnyddio llofnod sengl adlun ar siec, ond mae gweithdrefnau manwl iawn sydd yn gofyn am ddau lofnod neu fwy gan swyddogion priodol cyn i siec gael ei hysgrifennu.

[141] Alison Halford: Yr oedd hon yn weithdrefn gyfreithiol onid oedd? Prynu llonydd gan aelod o'r staff i ryw raddau, o'i eirio'n gwrs iawn. Yn amlwg mae gwersi i'w dysgu.

Mr Pavelin: Yn sicr. Ond mae'n amlwg o'r dystiolaeth a roddwyd gan y cyfarwyddwr a'r cyn-gyfarwyddwr i'r broses gyfan gael ei hystyried gryn dipyn a bod cyfreithwyr ynghlwm wrth ddod i gytundeb ar y swm a oedd i'w dalu.

[142] Alison Halford: Cyfeiriaf fy nghwestiwn olaf atoch chi, Mr Ford. Yr ydych wedi arbed arian y trethdalwyr, ond ni wnaeth y sylw yn y wasg a ddilynodd lawer i integredd yr amgueddfa. A fyddech yn cytuno?

Mr Ford: Nid wyf wedi gweld y sylw yn wasg a ddilynodd.

[143] Alison Halford: **You do not read the press?**

Mr Ford: **I do not live in Wales any more. I certainly have not seen anything in the papers that I read and nobody has sent any to me.**

[144] Alison Halford: **I am surprised.**

[145] Peter Black: **I want to return to Mr Ford. From the line of questions that Alison has just followed and the previous line of questioning, there were clearly difficulties for you as your accounting officer was the one being disciplined. Therefore, you felt that the advice that you would normally have was not available to you. I get the impression that you felt rather isolated because of that. Do you feel that, in retrospect, you should have sought advice from other sources on the exact procedures to be followed in terms of both the disciplinary procedure and the pay-off?**

Mr Ford: **I certainly thought at the time that, in the absence of my own compliance officer, I had taken as much advice as possible by seeking the**

[143] Alison Halford: **Onid ydych yn darllen y papurau newydd?**

Mr Ford: **Nid wyf yn byw yng Nghymru bellach. Yn sicr ni welais unrhyw beth yn y papurau yr wyf i yn eu darllen ac nid oes unrhyw un wedi anfon rhai ataf.**

[144] Alison Halford: **Yr wyf wedi fy synnu.**

[145] Peter Black: **Hoffwn ddychwelyd at Mr Ford. O'r gyfres o gwestiynau y mae Alison wedi'i dilyn a'r gyfres flaenorol o gwestiynau, yn amlwg yr oedd gennych anawsterau gan mai eich swyddog cyfrifo oedd yr un a oedd yn cael ei ddisgyblu. Felly, yr oeddech yn teimlo nad oedd y cyngor y byddech yn ei gael fel arfer ar gael i chi. Caf yr argraff i chi deimlo i chi gael eich ynysu braidd oherwydd hynny. A ydych yn teimlo, wrth edrych yn ôl, y dylech fod wedi ceisio cyngor o ffynonellau eraill ar yr union weithdrefnau i'w dilyn o ran y weithdrefn ddisgyblu a'r taliad?**

Mr Ford: **Credais yn sicr ar y pryd, yn absenoldeb fy swyddog cydymffurfio fy hun, fy mod wedi cymryd cymaint o gyngor â phosibl drwy geisio'r cyngor**

best possible legal advice that I could find, seeking the advice of and sharing my problems with Welsh Office officials and having highly experienced people at the head of my Council, all of them with more experience of this kind of thing than I had. Nonetheless, I did have some sleepless nights over this. You are quite right about that. But that is the way that it was. I took all the advice that I thought that I could get hold of. I did not know where else I should go, behind which of those different organisations I should go. I thought that I had a lot of very senior, experienced and professional people telling me what to do.

[146] Brian Gibbons: Mr Shortridge and Mr Ford, we all agree that at least two informal discussions took place. That is not disputed. Mr Ford said that at least one of them was a long discussion.

Mr Ford: I remember coming out saying 'My golly, I have been on the phone for an hour and a quarter'.

[147] Brian Gibbons: Would you agree that at least one of them was a long discussion?

